



GIG
CYMRU
NHS
WALES

Bwrdd Iechyd Prifysgol
Cwm Taf Morgannwg
University Health Board

2019 - 2020

DATGANIAD ANSAWDD BLYNYDDOL

Cwm Taf Morgannwg Trosolwg

Mae ein gwasanaethau ysbyty yn amrywio'n fawr fel:



1 Cumyned

Mae'r sector amrywiol hwn yn cwmpasu ystod eang o wasanaethau, o'r rhai sydd wedi'u targedu at bobl sy'n byw gydag anghenion iechyd a gofal cymhleth - fel nyrsio ardal a gofal lliniarol - i wasanaethau hybu iechyd - fel nyrsio ysgolion ac ymweld ag iechyd. Mae gwasanaethau cymunedol yn chwarae rhan allweddol wrth gadw pobl yn iach, trin a rheoli salwch aciwt a chyflyrau tymor hir, a chefnogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi eu hunain.

2 Gofal Sylfaenol

Yn y sector gofal sylfaenol, mae gan Merthyr Tudful, Rhondda Cynon Taf a Pen-y-bont ar Ogwr 110 o Fferyllfeydd Cymunedol, 58 Meddygfa Deintyddol, 54 Meddygfa Gyffredinol a 46 Meddygfa Optometrydd

3 Gofal Eilaidd

Mae'r Bwrdd Iechyd yn rheoli tri Ysbyty Cyffredinol Dosbarth a 46 safle arall sy'n cynnwys ysbytai cymunedol, canolfannau iechyd / clinigau a chyfleusterau cymorth. Mae nifer o'n hysbytai bellach ymhlith y mwyaf modern yng Nghymru.

Ein Cenhadaeth:

Adeiladu cymunedau iachach gyda'i gilydd

Rydym yn darparu gofal o ansawdd i bob claf trwy ymarfer clinigol integredig cynhwysfawr, arloesi meddygol a dysgu gydol oes.

Rydym yn ymroddedig i ddiwallu anghenion:

- Ein claf - gofal iechyd rhagorol a chost-effeithiol
- Ein staff - datblygiad a lles parhaus
- Ein cenedl - partneriaeth wrth hybu iechyd

Ein Gweledigaeth:

Ar draws pob cymuned mae pobl yn dechrau, byw a gorffen bywyd yn dda, gan deimlo eu bod yn cymryd rhan yn eu dewisiadau iechyd a gofal

Ein Gwerthoedd Craidd

Mae sgwrs ddiwylliannol helaeth ar y gweill o fewn y Bwrdd Iechyd a gyda'n poblogaeth leol, gan ddechrau'r broses o ddatblygu diwylliant sy'n cefnogi ac yn grymuso staff a'r rhai sy'n defnyddio ein gwasanaethau i wella eu profiadau. Mae'r cam cyntaf wedi bod yn broses ymgysylltu eang, gyda dros 4000 o ryngweithio, trwy weithdai ac arolygon gwrando staff a chleifion. Yn dilyn dadansoddiad, mae'r mewnwelediad o'r adolygiad hwn ac adolygiadau eraill wedi llywio cyd-greu set o werthoedd ac ymddygiadau a rennir. Bydd fframwaith gwerthoedd ac ymddygiadau newydd y sefydliad yn cael ei lansio yn Hydref 2020.

Ffigurau Allweddol (Ebrill 2019 - Mawrth 2020)



1,477

Capasiti Gwelyau Cleifion
Mewnol



689,842

Presenoldeb Cleifion Allanol



13,500

Cryfder Staff



194,053

Presenoldebau Damweiniau
ac Achosion Brys



124,848

Cleifion wedi'u Rhyddhau



21,314

Gweithrediadau Llawfeddygol
wedi'u Cynllunio

Cydnabyddiaethau

HOFFEM DDIOLCH I'N HOLL RANDDEILIAID
ALLWEDDOL SYDD WEDI CYFRANNU
AT GYNHYRCHU'R DATGANIAD
ANSAWDD BLYNYDDOL

#TîmCTM

Adborth gan rai o'n prif randdeiliaid



Diolch i chi am anfon ataf y Datganiad Ansawdd Blynyddol ar gyfer 2019/2020. Roedd yn ddogfen ddiddorol iawn, ac rydw i'n deall faint o waith sydd wedi ei wneud ar y prosiectau a ddisgrifiwyd a hefyd faint o waith a wnaed wrth lunio'r Datganiad ei hun.

Mae'n adlewyrchu'r heriau y mae'r Bwrdd Iechyd wedi eu hwynebu yn dilyn yr adroddiad ynghylch Gwasanaethau Mamolaeth yn 2018/19, a'r angen i ddatblygu fframwaith ansawdd ledled y sefydliad yn dilyn symud ffin y Bwrdd Iechyd i gynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn Ebrill 2019.

Roedd diddordeb arbennig gennyf yn y gwaith i ganfod oedolion â salwch aciwt yn y gymuned yn gynnar. Rydw i'n deall nad yw'r Datganiad Ansawdd hwn yn mynd i'r afael â'r ymateb i COVID-19, ond wrth i'r Bwrdd Iechyd ailddylunio gwasanaethau yn dilyn y pandemig, byddai'n briodol bod y prosiect hwn yn cymryd blaenoriaeth am ein bod yn gwybod y gall fod cynnydd yn yr achosion o salwch yn y gymuned gan fod pobl wedi bod yn amharod i ddefnyddio gwasanaethau. Fel Cyngor Iechyd Cymuned, mae pryderon gennym am yr anghenion hyn sydd heb eu diwallu yn rhai o'n cymunedau difreintiedig. Rydym yn deall yr angen i ymgysylltu â'r cymunedau hyn er mwyn gwella eu defnydd o wasanaethau iechyd. Mae'r prosiect hwn yn gyfle delfrydol i weithio mewn modd sy'n wir yn amlddisgyblaethol gyda gofal sylfaenol, gofal cymunedol a gofal cymdeithasol.

Diolch eto i chi am rannu'r Datganiad Ansawdd Blynyddol â'r asiantaeth. Mae llawer iawn o waith da ar y cyd wedi ei gwblhau yn ystod 2019-2020, ac mae hyn wedi adlewyrchu'n dda iawn yn y Datganiad.

Er bod y Bwrdd Iechyd wedi wynebu heriau yn 2019-2020 (ac wrth gofio hefyd i COVID-19 gyrraedd, sefyllfa a achosodd broblemau na allai unrhyw sefydliad fod wedi eu rhagweld), mae'r Bwrdd Iechyd wedi parhau i gyflawni ei amcanion. Dylem fod yn ddiolchgar felly i bob aelod o staff yn BIP CTM am sicrhau bod ein cymunedau yn cael eu gwasanaethu. Rydw i'n falch iawn o weld bod yr asiantaeth yn cael ei chydabod am ei gwaith ar y cyd trwy ei gwasanaeth o'r Ysbyty i'r Cartref. Mae'r gwasanaeth hwn yn mynd o nerth i nerth trwy ddull Tîm Amlddisgyblaethol, er mwyn gwella llif y cleifion ac i atal salwch. Rydw i'n edrych ymlaen yn fawr at ddatblygu'r gwasanaeth hwn er mwyn cryfhau'r cydweithio rhwng y sector iechyd, y sector gofal cymdeithasol a'r trydydd sector yn 2020-2021.

Mae'r Datganiad hwn yn adlewyrchiad da o flwyddyn anodd iawn, ac mae'r asiantaeth yn ymrwymedig i gefnogi'r Bwrdd Iechyd i ddiwallu anghenion ein cymunedau am flynyddoedd i ddod. Da iawn i chi ac i staff yn BIP CTM.





**VOLUNTARY ACTION
MERTHYR TYDFIL
GWEITHREDU GWIRFODDOL
MERTHYR TUDFUL**

Diolch i chi am y cyfle i adolygu eich Datganiad Ansawdd Blynyddol. Roedd darllen newyddion da am Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg yn galonogol iawn. Nid oeddem yn ymwybodol bod y Bwrdd Iechyd yn rhan o'r gwaith o ddatblygu neu gefnogi cynifer o brosiectau da. Rydym yn credu'n gryf fod gweithio mewn partneriaeth gyfartal gyda'r 3^{ydd} sector yn hollbwysig i'r gwaith o ddatblygu gwasanaethau i ddiwallu anghenion y boblogaeth, ac mae hyn yn cynnwys ceisiadau am gyllid trawsffurfiol ymysg pethau eraill. Rydym yn

credu hefyd bod angen gwella cydweithio o fewn gofal sylfaenol. Mae'n bwysig nodi y bydd y cyllid ar gyfer dau Gydlynnydd Lles newydd yn hwb i aros yn iach gartref, ac yn helpu i atal y defnydd o wasanaethau gofal eilaidd. Byddem yn falch o weld y Bwrdd Iechyd yn canolbwyntio ar ddechrau cynnal cyfarfodydd partneriaeth â'r cyhoedd eto, fel y grŵp darllenwyr a'r grŵp llywio gwirfoddoli.

CYNNWYS

#TUDALEN

CYFLWYNIAD	7
EDRYCH YN ÔL	8
AROS YN IACH	24
GOFAL DIOGEL	29
GOFAL EFFEITHIOL	37
GOFAL URDDASOL	42
GOFAL AMSEROL	47
GOFAL UNIGOL	49
EIN STAFF	56
EDRYCH YMLAEN	61

Croeso gan y Cadeirydd a'r Prif Weithredwr

Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) yn ymrwymedig i wella iechyd ein cymunedau ac ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau. Mae'r Bwrdd yn cydnabod yr angen i roi pobl ac ansawdd wrth wraidd popeth a wnawn, ac mae llawer o waith ar y gweill i newid dulliau, systemau a phrosesau ledled y sefydliad er mwyn sicrhau bod hyn wedi ei wreiddio ledled ein lleoliadau a'n safleoedd gofal iechyd.

Mae wedi bod yn flwyddyn anodd i BIP CTM yn dilyn adroddiad Coleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr (RCOG) am wasanaethau mamolaeth, newid ein statws uwchgyfeirio i 'Fesurau Arbennig' ar gyfer gofal mamolaeth yn sgil yr adroddiad ar y cyd gan Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru a Swyddfa Archwilio Cymru, a'r adolygiad annibynnol o sut y deliwyd ag adroddiad y Fydwraig Ymgynghorol. Er na ddylem ddiystyru'r heriau sy'n bod o hyd, rydym wrthi'n canolbwyntio ar wella sut rydym yn gweithio fel bod ein staff yn gallu darparu'r gofal o'r ansawdd gorau i'n cymunedau.

Mae'r timau Mamolaeth wedi bod yn gweithio yn hynod o galed i gyflawni argymhellion adolygiad y RCOG, ac wedi bod yn rhoi ansawdd a phrofiad y ferch a'i theulu wrth wraidd y gwaith o ddarparu a dylunio gwasanaethau. Rydym wedi croesawu pob adroddiad gan y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth, sydd wedi canfod cynnydd cyson yn y maes hwn. Mae'r gwersi a ddysgwyd o Famolaeth yn cael eu rhoi ar waith o hyd hefyd ac maent yn cael eu gwreiddio yn ein gwaith ledled y Bwrdd Iechyd. Mae ein dull yn CTM yn rhoi ffocws cryf ar wella ansawdd; mae'n annog ein timau i rannu arferion da a dysgu ohonynt, ac mae'n cefnogi staff i wneud newidiadau fel bod ansawdd gwasanaethau a gwrando ar ein cymunedau a'n cleifion bob tro yn dod gyntaf.

Mae gofal o ansawdd uchel a diogelwch cleifion yn dibynnu ar arweinyddiaeth glinigol gref ac ar ddiwylliant sefydliadol sy'n cynnwys staff yn llawn. Rydym wedi datblygu set newydd o werthoedd ac ymddygiadau bellach ar gyfer CTM, gan ddefnyddio profiadau ac adborth ein staff a'n cymunedau. Yn ogystal, mae rhaglenni i gefnogi staff i feithrin eu hyder a'u sgiliau wrth arwain ar y gweill hefyd.


Mae rhoi ansawdd wrth wraidd ein gofal yn golygu bod angen i ni wrando ar ein staff, ein partneriaid, ein cleifion a'n cymunedau a dysgu ganddynt. I'r perwyl hwn, rydym wedi bod yn datblygu rhaglen newydd o'r enw 'Dewch i ni Draffod', er mwyn cynnal trafodaeth â'r grwpiau hollbwysig hyn fel bod eu syniadau'n dylanwadu ar ein gwasanaethau.

Er bod gwaith yn parhau er mwyn mynd i'r afael â'r heriau, mae llawer iawn o fod yn falch ohono ac mae hyn i'w weld yn y Datganiad hwn. Gallwn ddangos nifer fawr o enghreifftiau o ofal tosturiol ac o wella gwasanaethau ledled y sefydliad, ac mae'n bwysig bod yr arferion da hyn yn cael eu cydnabod a'n bod yn adeiladu arnynt.

Mae'r Bwrdd wedi llwyr ymrwymo i sicrhau bod pobl, ansawdd a diogelwch yng nghanol popeth a wnawn fel sefydliad, wrth i ni barhau i wneud gwelliannau er budd ein staff a'n cymunedau.



Sharon Hopkins
Prif Weithredwr Dros Dro



Marcus Longley
Cadeirydd



EDRYCH YN ÔL 2019-2020

Mae'n bleser gennym eich croesawu i'n **Datganiad Ansawdd Blynyddol** (y Datganiad) ar gyfer 2019/20. Mae ein hymrwymiad i wella iechyd ein cyhoedd ac ansawdd a diogelwch ein gwasanaethau yn parhau.

Mae rhai uchafbwyntiau yn 2019/20 i'w gweld isod:

- Datblygu **Model Integredig o Ofal** i wneud rhagor o **gynigion o wasanaethau amgen** yn lle derbyn cleifion i'r ysbyty a darparu gofal hirdymor;
- Parhau ar garlam gyda phrosiect i drawsffurfio **Ysbyty Dew Sant yn Barc Iechyd**. Mae'r ganolfan glwstwr yn Nhaf Elái yn agos at gael ei gorffen hefyd;
- Penodi **Cydlynnydd Celf ac Iechyd** newydd a fydd yn arwain ein Rhaglen Celf ac Iechyd er mwyn **hybu lles** ymysg ein cleifion, staff a'n cymunedau;
- Cyflwyno **Sgoriau Rhybudd Cynnar Cenedlaethol** mewn gofal sylfaenol;
- Sefydlu **Prosiect Cydweithredol Byr ar gyfer Cwmpiaidau**; mae hwn yn sicrhau **gwelliannau amlwg** mewn meysydd eraill hefyd gyda ffocws ar **atal a lleihau niwed** yn sgil cwmpo. Mae hyn yn cynnwys defnyddio **Fframwaith Goruchwyllo Agos a Chylchdroi Gofal Cleifion**;
- Profi, a rhoi ar waith, **ddull electronig o gofnodi i nyrsys**;
- Gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cwm Taf i gyflwyno ein gwasanaeth o'r Ysbyty i'r Cartref. Mae hyn yn hybu annibyniaeth dinasyddion;
- Dechrau datblygu ein **gwerthoedd a'n hymddygiadau ar y cyd**;

Byddwn yn manylu ar rai o'r uchafbwyntiau hyn, ynghyd â rhai eraill, isod yn y Datganiad hwn.

Fel pob Bwrdd Iechyd arall yng Nghymru, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) yn wynebu heriau mawr. Fodd bynnag, rydym yn canolbwyntio ar oresgyn yr heriau hyn trwy newid sut rydym yn darparu gwasanaethau gofal iechyd i'r dyfodol a thrwy wreiddio mesurau i wella ansawdd y gofal a roddwn i'n cleifion.

Sefydliad sy'n Newid

Ffin Newydd

Ym mis Mehefin 2018, cyhoeddodd Ysgrifennydd y Cabinet dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai'r cyfrifoldeb dros ddarparu gwasanaethau gofal iechyd i bobl yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr yn trosglwyddo o Fwrdd Iechyd Prifysgol Abertawe Bro Morgannwg i Fwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf o 1 Ebrill 1 2019 ymlaen.

Daeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf yn **Fwrdd Iechyd Cwm Taf Morgannwg** ar Ebrill 1 2019. Roedd trosglwyddo gwasanaethau o Ben-y-bont ar Ogwr yn fater o gryn bwys yn 2019/20. Yn sgil cynnwys Pen-y-bont ar Ogwr yn ardal Cwm Taf, cynyddodd poblogaeth y Bwrdd Iechyd o 298,116 i **441,293** (Ystadegau Cymru 2016). Mae hyn yn cyfateb i gynnydd yn y boblogaeth o 48% . Mae hyn yn ei dro yn cyfateb i ychydig yn fwy na 14% o boblogaeth Cymru. Mae ychydig yn fwy na 54% o'r boblogaeth honno yn byw yn ardal Cyngor Bwrdeistrefol Sirol Rhondda Cynon Taf, 13.5% yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Merthyr Tudful a bron i 32.5% yn ardal Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr. Mae poblogaeth dalgylch y Bwrdd Iechyd yn cynyddu bron i 530,000 o gynnwys llif y cleifion o Gwm Rhymni Uchaf, De Powys, Gogledd Caerdydd, Castell Nedd Port Talbot a Bro Morgannwg.

Rhaglen De Cymru

Yn ôl yn 2014, cynhaliodd y Byrddau Iechyd yn y De ymgynghoriad mawr â'r cyhoedd (o'r enw Rhaglen De Cymru). Roedd yr ymgynghoriad yn canolbwyntio ar wasanaethau Obstetreg, Paediatreg a Meddygaeth Frys dan arweiniad ymgynghorydd, y byddai'n rhaid eu darparu mewn llai o ysbytai ar draws de Cymru yn y dyfodol er mwyn sicrhau eu bod yn gynaliadwy a bod cleifion yn cael y gofal gorau posibl.

Yn dilyn yr ymgynghoriad hwnnw roedd nifer o ganlyniadau i Ysbyty Brenhinol Morgannwg, gan gynnwys newidiadau i'r gweithlu yn yr Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys, datblygu'r ysbyty fel canolfan o ragoriaeth ar gyfer meddygaeth aciwt a sefydlu Hýb Diagnostig. Mae pob un o'r newidiadau hyn wedi cael eu rhoi ar waith, ac mae'r cleifion eisoes yn gweld y buddion. Un o ganlyniadau eraill yr ymgynghoriad oedd newidiadau i'r gwasanaethau mamolaeth a paediatrig i gleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg.

Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i weithio gyda'i staff a'i gymuned i ddatblygu gwasanaethau diogel a chynaliadwy, wrth ystyried ar yr un pryd argymhellion Rhaglen De Cymru a barnau'r cymunedau y byddai'r newidiadau yn effeithio arnynt.

Uwchgyfeirio Gwasanaethau

Roedd 2018/19 yn gyfnod arwyddocaol o weithredu ac adlewyrchu i'r Bwrdd Iechyd, nid yn unig o ran sut i gyflawni ei gyfrifoldebau ychwanegol ond hefyd yn sgil codi statws uwchgyfeirio'r Bwrdd Iechyd o 'Drefniadau Arferol' i 'Fonitro Uwch' - sef yr ail o bedair lefel Llywodraeth Cymru ar gyfer rheoli ansawdd a pherfformiad ein gwasanaethau a'n rheolaeth ariannol.

Ein blaenoriaeth bob tro yw darparu'r ansawdd gorau posibl i'n poblogaeth a'n cleifion, ac rydyn ni'n siomedig bod heriau difrifol ar yr adeg honno wedi golygu bod Llywodraeth Cymru, Swyddfa Archwilio Cymru ac Arolygiaeth Gofal Iechyd Cymru wedi codi pryderon.

Mae'r Bwrdd yn cymryd ei atebolrwydd dros ansawdd, diogelwch ac effeithiolrwydd ei wasanaethau o ddifrif, ac mae profiad unigolion sy'n derbyn ein gwasanaethau iechyd yr un mor bwysig i ni. Er ein bod eisoes wedi gwneud cynnydd wrth fynd i'r afael â nifer o'r materion a godwyd, rydym yn cydnabod bod llawer eto i'w wneud o ran newid systemau a diwylliannau er mwyn darparu gwasanaethau gwell a mwy o sicrwydd wrth symud ymlaen.

Ym mis Ionawr 2019, comisiynodd Llywodraeth Cymru adolygiad annibynnol gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr o wasanaethau mamolaeth Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf.

Daethpwyd i nifer o ganfyddiadau yn yr adolygiad, ac yn sgil y canfyddiadau hyn argymhellwyd bod gwasanaethau mamolaeth yn cael eu rhoi mewn Mesurau Arbennig (rydym yn amlinellu hyn isod). Yn ogystal, cynhaliodd nifer o gyrff allanol adolygiadau trwy gydol y Bwrdd Iechyd ac wedi hynny penderfynodd Llywodraeth Cymru nid yn unig y byddai'r Bwrdd Iechyd yn cael ei roi mewn 'Mesurau Arbennig', ond penderfynodd hefyd y byddai'r meysydd canlynol o ran Ansawdd a Llywodraethiant yn destun 'Ymyrraeth wedi'i Thargedu':

- Arweinyddiaeth a Diwylliant
- Llywodraethu ansawdd
- Ailadeiladu ymddiriedaeth a hyder

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gweithio'n galed iawn gyda'n gyrff allanol, ac rydym yn ymrwymedig i wrando, dysgu a gwella.

Gwella Gwasanaeth Mamolaeth Gyda'n gilydd

Yn dilyn codi'n statws uwchgyfeirio i 'Fesurau Arbennig', mae'n bwysig cyfleu sut mae'r Bwrdd Iechyd wedi cydnabod a chroesawu camau i wella ein gwasanaethau mamolaeth. Ar Ebrill 30 2019, yn dilyn cyhoeddi adroddiad yr adolygiad ar y cyd gan Goleg Brenhinol yr Obstetryddion a'r Gynaecolegwyr a Choleg Brenhinol y Bydwagedd, cyhoeddodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol y byddai statws uwchgyfeirio gwasanaethau mamolaeth ym Mwrdd Iechyd Cwm Taf fel yr oedd gynt yn cael ei godi i 'Fesurau Arbennig'. Yn rhan o becyn o fesurau i gefnogi ei ymyrraeth, penododd y Gweinidog banel annibynnol i ddarparu'r oruchwyliaeth angenrheidiol fel y gall Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg sicrhau ei fod yn mynd i'r afael â'r methiannau a ganfuwyd gan y Colegau Brenhinol, a hynny mewn modd amserol, agored a thryloyw ac mewn modd sy'n rhoi'r menywod a'r teuluoedd yn effeithiwyd arnynt yng nghanol y broses.


Pan adroddodd y Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth ddiwethaf ym mis Ionawr 2020, daeth i'r casgliad fod y Bwrdd Iechyd yn gwneud cynnydd da wrth fynd i'r afael ag argymhellion y Colegau Brenhinol, a nododd: *[We are] cautiously optimistic that longer-term sustainable improvement in maternity services would be delivered as the programme of work matured*.

Roedd y Bwrdd Iechyd yn gallu dangos tystiolaeth o gynnydd graddol wrth fynd i'r afael â 79 o weithredoedd a nodwyd yn y Cynllun Gwella Mamolaeth ynghyd ag arwyddion clir, â chymorth gwybodaeth o ystod o ffynonellau mewnol ac allanol, fod y gwasanaeth yn gwella. Mae modd gweld y gwelliannau hyn nid yn unig o ran diogelwch ac ansawdd y gofal a ddarperir ond hefyd o ran profiadau mwy cadarnhaol y menywod a'r teuluoedd sy'n defnyddio ein gwasanaeth a sut mae'r gwasanaeth yn cael ei reoli, ei arwain a'i lywodraethu.

Yn ogystal â hynny, adroddodd y Panel: *"Foundations for continued improvement were now firmly in place; effective leadership, appropriate programme management arrangements, clear lines of governance and accountability and a genuine commitment to deliver change at Board and senior leadership levels"*. Mae'r Bwrdd Iechyd yn parhau i gydweithio â'r Panel a rhanddeiliaid eraill er mwyn cyflawni'r Cynllun Gwella Mamolaeth, a hynny mewn cyd-destun lle mae croeso i graffu a herio.

Mae'r Panel o'r farn fod y Bwrdd Iechyd **yn sicr ar y trywydd iawn bellach**, nid yn unig i gyflawni argymhellion y Colegau Brenhinol mewn pryd ond hefyd i ddarparu gwasanaeth mamolaeth y gall y Bwrdd Iechyd, ei staff a'i gymunedau fod yn falch ohono. Nid yw hyn yn gyfystyr ag awgrymu bod y gwaith ar ben; bydd heriau eraill i'w goresgyn ar hyd y daith heb unrhyw amheuaeth. Fodd bynnag, y gred yw bod gan y Bwrdd Iechyd bellach yr adnoddau iawn, y mecanweithiau iawn a'r bobl iawn i wneud gwelliannau yn barhaus, gwaith sy'n angenrheidiol er mwyn cyflawni a gwreiddio newid.

Ymgysylltu â menywod a'u teuluoedd



Wrth i'n gwasanaethau wella, mae effaith amlwg i'w gweld ar brofiad menywod a'u teuluoedd. Er enghraifft, mae'r arolygon a gynhelir ddwywaith yr wythnos, gan Wasanaeth Cymorth a Chyswllt Cleifion y Bwrdd Iechyd (PALS), wedi dangos lefelau uchel o fodlonrwydd yn gyson gan fenywod a theuluoedd sy'n defnyddio'r gwasanaeth yn Ysbyty'r Tywysog Siarl.

Roedd agoriad swyddogol Canolfan Geni Tirion yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ar 9 Mawrth 2020 yn un enghraifft o'r fath ddigwyddiad ymgysylltu. Nid yn unig y mae'r cyfleusterau o'r radd flaenaf yno wedi eu dylunio i ddiwallu anghenion menywod a'u partneriaid, ond mae'r perthnasau agos rhwng y staff yno a'r menywod sydd wedi rhoi genedigaeth hefyd yn arwyddocaol ac yn ystyrlon.

Ers ei hagog ym Mawrth 2019, mae Canolfan Geni Tirion wedi croesawu nifer o fenywod, babanod a'u teuluoedd, a daeth nifer fawr ohonynt i ymuno â'r staff i ddathlu llwyddiant cynnar y Ganolfan. Siaradodd rhai yn angerddol am y gofal a gawsant yno gan y staff, ac roedd y teimlad o falchder ac o berchnogaeth ar y cyd yn un amlwg.

Mae nifer o ddulliau ymgysylltu wedi eu creu er mwyn canfod barnau, profiadau a meddyliau pobl sy'n cymryd rhan mewn digwyddiadau, a bydd y rhain yn werthfawr iawn ar gyfer digwyddiadau eraill wrth nodi a mesur ymarfer effeithiol. Mae rhannu profiadau a gwersi a ddysgwyd wyneb yn wyneb wedi nodweddu llwyddiant rhaglen ymgysylltu gwasanaethau mamolaeth, ac mae hyn bellach yn cael ei wneud gan y Bwrdd Iechyd mewn nifer o leoliadau gofal eraill er mwyn llunio gwasanaethau.

Mae'r 'cofnodion gweledol' yn cynnig adroddiad sy'n gyforiog o ddelweddau, sy'n dangos gwelliannau'r Bwrdd Iechyd wrth fynd i'r afael â rhai o'r prif faterion a godwyd gan fenywod a'u teuluoedd yn ystod adolygiad y Colegau Brenhinol, ac ymhlith y materion hyn yr oedd cyfathrebu gwael, diffyg gwrando a diffyg ffocws ar brofiadau menywod.

Dywedodd un o gynrychiolwyr y menywod a'u teuluoedd fod y mapiau gweledol, y baneri poster, y canllawiau gweledol a'r llwybrau yn **"ganwaith yn well"**, fod yr awyrgylch yn **"groesawgar, yn fwy llonydd ac yn hamddenol"**, fod modd i fenywod **"ddod o hyd i'r cyswllt iawn - y person oedd yn y sefyllfa orau i ddelio â'r mater"**, a'i bod yn hawdd **"sôn am rywbeth"**.



Mae'r cofnodion gweledol a luniwyd yn ystod y digwyddiadau ymgysylltu'n cael eu harddangos yn nhair uned famolaeth y Bwrdd Iechyd bellach, ynghyd â chofnodion gweithredu sy'n tynnu sylw at y gwelliannau sydd eisoes wedi eu gwneud yn dilyn yr adborth a dderbyniwyd.

Mae cynrychiolwyr menywod a'u teuluoedd hefyd wedi chwarae rhan fawr yn y gwaith o benderfynu ar sut y bydd eu straeon yn effeithio ar y broses adolygu glinigol, ac maent hefyd wedi dweud wrthym am y gefnogaeth yr hoffent ei derbyn. Maes o law, bydd angen gwerthuso sut y mae hyn wedi gweithio i'r grŵp ehangach sydd wedi bod yn rhan o'r broses adolygu glinigol, a bydd angen rhoi cymorth iddynt er mwyn iddynt gael dweud eu straeon.

Mae parhau i 'gydgynhyrchu' yn bwysig, ac mae menywod a'u teuluoedd wedi awgrymu y gallent gysylltu ag eraill sy'n rhan o hyn a rhannu eu profiadau personol o fod yn rhan o sesiynau diweddarau'r Panel Trosolwg Annibynnol ar Wasanaethau Mamolaeth. Mewn cyfweiliad ar gyfer newyddlen 'menywod a theuluoedd' y Panel, soniodd menywod am "***pa mor bwysig yw hi i gael ein clywed - ddim gwrando yn unig ond deall hefyd***", a nodant "***sut mae'r Panel yn gwneud pethau'n wahanol o ganlyniad i glywed ein barnau***".

Mae'r Bwrdd Iechyd yn cydnabod nad yw cynnal digwyddiadau ymgysylltu ond yn un cam cychwynnol yn y broses o gydgynhyrchu. Nid oes fawr o ddiben i ni wrando ar fenywod a'u teuluoedd os na fydd yr hyn sydd ganddynt i'w ddweud yn arwain wedyn at newidiadau yn y ffordd y mae'r gwasanaeth yn cael ei ddarparu. Am y rheswm hwn, mae dadansoddiad thematig manwl o'r adborth a dderbyniwyd yn y ddau ddigwyddiad ymgysylltu cyntaf wedi ei wneud, ac mae'r gwaith o ddadansoddi'r adborth o'r trydydd un ar y gweill.

Am ragor o wybodaeth, dilynwch:

<https://llyw.cymru/y-panel-trosolwg-annibynnol-ar-famolaeth-strategaeth-adolygu-clinigol>

Hyfforddiant PROMPT – gwneud rhoi genedigaeth yn fwy diogel

Trwy gydweithio â Llywodraeth Cymru ac aelodau o Rwydwaith Mamolaeth Cymru, mae cyfres o Safonau wedi ei llunio ar gyfer Cymru Gyfan, er mwyn sicrhau y caiff hyfforddiant amlbroffesiynol ei roi ar waith yn llwyddiannus.

Mae PROMPT (*PRactical Obstetric Multi-Professional Training*) yn becyn hyfforddiant ar sail tystiolaeth lle mae timau amlddisgyblaethol yn hyfforddi bob blwyddyn. Mae'n rhaglen arloesol o hyfforddiant sydd wedi ei haddasu gan Gronfa Risg Cymru, ac mae bellach yn hyfforddiant gorfodol i bawb sy'n rhan o ofal mamolaeth. Mae ymchwil wedi dangos bod y rhaglen yn gwella gofal i famau a'u babanod, ei bod yn lleihau niwed a'i bod yn gwella gwaith tîm, ymwybyddiaeth sefyllfaol a chyfathrebu yn gyffredinol ledled y byd.



Mae hyfforddiant PROMPT Cymru yn cynnwys y tîm amlbroffesiynol ehangach sy'n gweithio ym maes gofal mamolaeth – yn eu plith anaesthetyddion, obstetryddion, ymarferwyr yr adran lawdriniaethau, bydwagedd a staff cymorth mamolaeth. Dylai'r sawl sy'n ymgymryd â dyletswyddau i ofalu am fenywod a babanod gwblhau hyfforddiant PROMPT Cymru.

Rydym wedi darparu **17** o gyrsiau ledled y Bwrdd Iechyd hyd yma, ac mae cyfanswm o **431** o weithwyr gofal iechyd proffesiynol wedi cael eu hyfforddi. Mae hyn yn cyfateb i lefel cydymffurfiaeth o **98%**.

Cynaliadwyedd Amgylcheddol

A ninnau mewn lleoliad delfrydol rhwng Caerdydd i'r de, tref arfordirol Porthcawl i'r gorllewin, a golygfeydd syfrdanol Parc Cenedlaethol Bannau Brycheiniog i'r gogledd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg yn gweithredu o fewn cymuned fywiog, gyda hanes, bioamrywiaeth a threftadaeth gyfoethog. Gall ein hadnoddau naturiol ac ecosystemau ein helpu mewn nifer o ffyrdd; i leihau achosion o lifogydd, gwella ansawdd yr aer ac i gynhyrchu deunyddiau adeiladu. Mae ein hadnoddau naturiol hefyd yn gartref i amrywiaeth o fywyd gwyllt, nid i sôn am y tirluniau hyfryd y mae ein safleoedd yn eistedd ynddynt sy'n annog ffyrdd iach a chyfforddus o drin cleifion, o weithio ac o ymweld.

Gyda nodau Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 mewn golwg, rydym yn ymrwymedig i leihau effaith ein gweithredoedd o ddydd i ddydd ar yr amgylchedd lle bynnag y bo hynny'n bosibl, ac rydym yn cyfrannu at y daith at Gymru wydn trwy sicrhau bod pob aelod o staff, a phob contractiwr annibynnol yn ogystal, yn gyfrifol am weithio mewn modd sy'n amddiffyn yr amgylchedd.

Darllenwch fwy am Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yma:

<https://www.futuregenerations.wales/cy/about-us/future-generations-act/>

Yn ystod 2019-2020, cafwyd y llwyddiannau mawr hyn ym maes cynaliadwyedd amgylcheddol gan BIP CTM:

- Mae gan ddau o'n tri ysbyty aciwt unedau gwres a phŵer cyfun. Mae'r rhain yn lleihau ein hól-troed carbon a'n dibyniaeth ar drydan o'r Grid Genedlaethol.
- Â chymorth gan y Tîm Prosiectau Mawr, mae tendr am bwyntiau gwefru trydanol wedi ei ddyfarnu a bydd gwaith yn dechrau yn Haf 2020. Bydd hyn yn galluogi timau Ystadau a Chyfleusterau i ddewis cerbydau ar gyfer eu fflyd sy'n cynhyrchu llai o garbon.
- Yr amcangyfrif yw y bydd cyfradd ailgylchu'r Bwrdd Iechyd yn 45% ar gyfer 2019-20. Er bod hwn yn llwyddiant mawr, mae hwn yn ostyngiad o gymharu â'r gyfradd o 49% ar gyfer 2018-19 ac mae hefyd yn llai na'r targed o 50% a osododd y Bwrdd Iechyd ar gyfer y gymhareb ailgylchu i dirlenwi ar gyfer 2019-20. Y rheswm dros hyn yw ehangu ffin y Bwrdd Iechyd i gynnwys safleoedd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, sy'n cynnwys un safle aciwt a dwy safle gymunedol.
- Mae casgliadau gwastraff bwyd yn parhau ar bob un o safleoedd ein hysbytai. Byddwn wedi anfon 273 o dunelli o wastraff i gael triniaeth treulio anaerobig eleni, yn hytrach nag anfon y gwastraff hwn i safleoedd tirlenwi.
- Mae'r contractiwr gwastraff clinigol i Gymru gyfan, Stericycle, yn parhau i anfon gwastraff clinigol i gael ei ddefnyddio fel Tanwydd Solet a Adferwyd yn hytrach na'i anfon i safleoedd tirlenwi. Hwn bellach yw'r dull arferol o gael gwared ar wastraff clinigol heintus a driniwyd, a dyna'r unig ddull a ddefnyddiwyd yn ystod y cyfnod adrodd hwn.

Darparu cyfleoedd galwedigaethol mewn partneriaeth â chwmni Elite Paper Solutions

Rydym yn falch o gyhoeddi ein bod wedi ffurfio partneriaeth â chwmni Elite Paper Solutions. Mae prif elusen y cwmni, ELITE Supported Employment Agency Cyf., wedi bod yn cynorthwyo pobl ag anableddau i ganfod a chadw gwaith â thâl yn y gymuned, trwy roi cymorth un wrth un iddynt, er 1994.

A hwythau'n dibynnu ar gydweithio â busnesau lleol i ddarparu cyfleoedd galwedigaethol, roedd ELITE wedi gweld yr angen i sefydlu ei fusnes cynaliadwy ei hun â'r nod o gynnig cyflogaeth â thâl neu gyfleoedd gwaith i'w hymgeiswyr. Yn dilyn hynny, lansiodd ELITE Paper Solutions yn 2015.

Mae'r cwmni Elite Paper Solutions, o Ferthyr Tudful, wedi ei ddewis i fod yn gontractiwr unigol y Bwrdd Iechyd ar gyfer ei wastraff cyfrinachol ar bob un o'i safleoedd. Nod y cwmni yw helpu sefydliadau i leihau eu hól-traed carbon trwy ailgylchu eu gwastraff papur yn effeithiol, ar y cyd â helpu pobl i ddod o hyd i waith. Mae'r cwmni yn gwasanaethu'r gymuned trwy greu cyfleoedd cyflogaeth, gwirfoddoli a hyfforddiant i bobl anabl a phobl dan anfantais.

Mae Elite Paper Solutions yn creu cyfleoedd i bobl gydag anableddau ac i bobl sydd dan anfantais i ennill sgiliau a phrofiadau gwerthfawr ar ei safle, cyn i'r bobl hyn symud ymlaen yn y gymuned.



Pwyllgor Gwasanaethau Arbenigol Iechyd Cymru (PGIAC)

Mae gwasanaethau arbenigol yn cefnogi pobl sydd ag ystod o gyflyrau prin a chymhleth. Nid yw'r gwasanaethau hyn ar gael ym mhob ysbyty lleol oherwydd bod rhaid iddynt gael eu darparu gan dîm arbenigol o feddygon, nyrsys a gweithwyr iechyd proffesiynol eraill sydd â'r sgiliau a'r profiad angenrheidiol. Yn wahanol i'r rhan fwyaf o ofal iechyd, sy'n cael ei gynllunio a'i drefnu'n lleol, mae gwasanaethau arbenigol yn cael eu cynllunio'n genedlaethol gan PGIAC ar ran y saith Bwrdd Iechyd yng Nghymru. Mae PGIAC yn gweithio'n agos gyda'n Bwrdd Iechyd ni i sicrhau bod unrhyw wasanaeth arbenigol a gomisiynir o safon uchel ac nad oes unrhyw bryderon o safbwynt ansawdd. Mae PGIAC yn gwneud hynny ar ran y Bwrdd Iechyd trwy fframwaith sicrhau ansawdd sy'n cael ei fonitro gan ei Bwyllgor Ansawdd a Diogelwch Cleifion, ac mae'r Pwyllgor hwnnw yn adrodd yn ôl wrth y Bwrdd Iechyd.

Ymgysylltu â'n cyhoedd

Mae barnau ein cleifion, ein gofalwyr a'r cyhoedd wrth galon y gwaith o wella sut rydym yn darparu ein gwasanaethau. Cadw golwg ar sut rydym yn gwneud trwy lygaid y bobl hynny sy'n defnyddio ein gwasanaethau yw'r dull mwyaf effeithiol o wybod beth rydym yn ei wneud yn dda a beth mae'n rhaid i ni ei wella.

Rydym wedi llwyr ymrwymo i feithrin diwylliant sy'n croesawu ac yn cefnogi cynnwys cleifion, perthnasau a gofalwyr o bob cymuned. Gallant ein helpu i ddatblygu

dulliau o oresgyn yr heriau sydd ynghlwm wrth ddarparu gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel.

Sut rydym yn ymgysylltu â'r cyhoedd?

- Cynnal cyfarfod o'n Grŵp Cyfeirio Rhanddeiliaid ac o'n Pedwar Fforwm Lleoliad Cyhoeddus, ac mae hyn yn sicrhau bod amrywiaeth o farnau'n cael eu clywed ac yn dylanwadu ar sut mae gwasanaethau'n cael eu cynllunio, eu dylunio a'u darparu.
- Defnyddio 'hýb' ymgysylltu cymunedol ar lein, lle mae modd:
 - Hysbysebu digwyddiadau cyhoeddus;
 - Casglu gwybodaeth ac adborth gan y cyhoedd trwy holiaduron, i gynorthwyo'r gwaith o ddatblygu neu wella ein gwasanaethau;
 - Cyhoeddi canlyniadau gweithgarwch ymgysylltu ac ymgynghori.
- Gweithio'n agos gyda'r Cyngor Iechyd Cymuned er mwyn sicrhau bod gweithgarwch ymgysylltu yn amserol ac yn ystyrlon, fel bod pobl yn deall yr angen am newid a'r opsiynau sy'n cael eu hystyried. O ganlyniad i'r gwaith mawr sydd wedi ei wneud, rydym wedi gallu ymgysylltu ag ystod eang o grwpiau 'nad ydynt prin yn cael eu clywed', ac wedi gallu datblygu dull mwy cadarn o lunio Asesiadau o'r Effaith ar Gydraddoldeb.

- Gyda'n partneriaid yn y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus (partneriaeth strategol statudol a sefydlwyd o dan Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015), bydd dull cydlynol o ymgysylltu ac ymgynghori yn ffynnu, trwy'r defnydd cyson o'r hŷb ymgysylltu cyhoeddus ar lein.
- Cydweithio â Byrddau Iechyd cyfagos ar ystod o ddatblygiadau i wasanaethau rhanbarthol.



- Mae gwybodaeth ar wefan y Bwrdd Iechyd am wasanaethau allweddol, ac mae hefyd yn hyrwyddo gwaith ein partneriaid gan gynnwys gwaith Dewis a gwefan newydd y Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus, 'Ein Cwm Taf'.
- Parhau i gyhoeddi e-newyddlen bob mis gan ddefnyddio dull marchnata uniongyrchol i bobl sydd

wedi dewis derbyn diweddariadau rheolaidd a gwybodaeth gan y Bwrdd Iechyd.

- Parhau i ddefnyddio'r cyfryngau cymdeithasol er mwyn cyrraedd mwy o gleifion a staff ledled ein safleoedd ysbyty.
- Rydym yn parhau i gynhyrchu ffilmiau byr grymus i gyd-fynd ag ymgyrchoedd pwysig, fel yr ymgyrch iechyd staff Un Newid Bach, ynghyd ag ymgyrchoedd ar gyfer cynlluniau i ailddylunio gwasanaethau ac ar gyfer straeon cleifion. Mae modd gwyllo pob un o'n ffilmiau byrion ar sianel YouTube y Bwrdd Iechyd.
- Gweithio tuag at nod cyffredin, mewn partneriaeth â Phrifysgol Caerdydd, i sicrhau dulliau o wneud ymchwil, dylunio gwasanaethau a gwerthuso sy'n rhoi'r dinesydd yn gyntaf.



Ein model o iechyd a gofal cymdeithasol i'n poblogaeth

Fel cymuned, rydym yn credu bod angen i ni ganolbwyntio ar ofal integredig sy'n agos at gartref, ac sydd wedi ei deilwra i'r unigolyn ac i anghenion y gymuned. Mae'r potensial i ledu ein holl adnodau (pobl, sgiliau, ystadau ac arian) ar draws llwybr y cleifion yn creu cyfleoedd newydd i ailwampio'r system - bydd hyn yn golygu bod modd darparu mwy o ofal yn y cartref ac yn y gymuned a fydd yn lleihau nifer y derbyniadau i'r ysbyty.

Nod y rhaglen drawsffurfio yw datblygu gwasanaethau di-dor sy'n cael eu darparu'n agosach at gartref ac sy'n chwyldroi canlyniadau iechyd i unigolion a chymunedau.

Mae gan Fodel Iechyd a Gofal Cymdeithasol i Boblogaeth Cwm Taf dair haen, ac mae llais yr unigolyn wrth wraidd y gwaith o ddatblygu model di-dor o wasanaethau. Mae cam nesaf y model wrthi'n cael ei ddatblygu, fel y gellir gweld yn y diagram.

Cadw'n Iach yn eich Cymuned

Darparu rhagor o wasanaethau amgen yn hytrach nag anfon cleifion i'r ysbyty neu ddarparu gofal hirdymor iddynt

Mae ein Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol presennol wedi eu dylunio ar sail modelau traddodiadol o ddefnyddio a darparu gwasanaethau, lle gall y cyhoedd a gweithwyr proffesiynol ddefnyddio gwasanaethau o Ddydd Llun i Ddydd Gwener, o 9am tan 5pm yn bennaf.

Rydym yn ymwybodol bod hyn yn rhoi pwysau ar y system, yn enwedig ar ddechrau ac ar ddiwedd yr wythnos waith. Er enghraifft, mae pobl yn aros dros y penwythnos am adolygiadau gan staff uwch ar Ddydd Llun mewn yn yr ysbyty, ac mae pobl yn cael eu cyfeirio at wasanaethau gofal iechyd a chymdeithasol a gwasanaethau integredig ar Ddydd Llun yn dilyn argyfwng personol neu deuluol dros y penwythnos, lle maent yn disgwyl cefnogaeth ac ateb i'w problemau'n ddi-oed.

Bydd y rhaglen drawsffurfio'n cyflawni'r canlynol:

- Pwyntiau mynediad cyffredin a fydd ar agor saith diwrnod yr wythnos rhwng 8am ac 8pm, ar gyfer cymorth iechyd a gofal cymdeithasol cymunedol wedi ei gydlynw a chymorth gan y trydydd sector;
- Gwasanaethau ailalluogi/galluogi a fydd ar gael i bob claf a hynny dros saith diwrnod;
- Ehangu gwasanaeth pontio 'Better at Home', yn dilyn gwersi a ddysgwyd gan Brosiect Aros yn Iach Gartref yng Nghwm Taf oedd ar gael dros saith diwrnod;
- Gwasanaeth symudol a gofal yn y nos;

- Timau Clinigol Acíwt yn cefnogi'r gwaith o atal derbyniadau i'r ysbyty o'r gymuned;
- Cyfleuster 'cam i lawr' a 'cam i fyny' yn canolbwyntio ar ailalluogi, adfer a galluogi gofal seibiant, ac ar asesiadau y tu allan i'r ysbyty ar gyfer gofal hirdymor.

Rydym wedi dathlu nifer o gerrig milltir pwysig yn y sefydliad eleni

Dathliadau pen-blwydd

Ysbyty Cwm Rhondda

Ym mis Chwefror 2020, dathlodd Ysbyty Cwm Rhondda ei 10fed pen-blwydd. Cynhaliwyd perfformiad arbennig gan gôr Tenovus i nodi'r achlysur ac roedd hen ddigon o gacennau! Cafodd staff a chefnogwyr yr ysbyty, sydd â phedwar ward, wledd o ganeuon a chacennau i nodi degawd wrth galon cymuned y Rhondda, a chafwyd diolchiadau hefyd gan reolwyr a chyfarwyddwyr.

Agorodd Ysbyty Cwm Rhondda ym mis Chwefror 2010 i ddisodli Ysbyty Llwynypia, a agorodd ym 1903. Yn ystod y degawd diwethaf, mae wedi darparu gofal iechyd hanfodol i gleifion yng nghymoedd y Rhondda, trwy ddarparu gwasanaethau cleifion allanol, uned mân anafiadau a chanolfan iechyd gofal sylfaenol.



Yn y digwyddiad, dywedodd Alan Lawrie, Cyfarwyddwr Gofal Sylfaenol, Cymunedol ac Iechyd Meddwl ar gyfer Cwm Taf Morgannwg: "Mae ysbytai cymunedol yn rhan bwysig iawn o'n system gofal iechyd, ac weithiau dydyn nhw ddim yn cael eu gwerthfawrogi ddigon. Mae cyfleuster gwych gyda ni yma ers degawd, ac mae ymrwymiad y staff i'w ganmol. Mae'n ased wych yn llygaid y gymuned ac mae'n rhaid i ni wneud yn siŵr ein bod yn gwneud y gorau ohono."

Ychwanegodd Dirprwy Bennaeth Nyrsio, Lucie Williams: "Ddeng mlynedd yn ôl, roedd nifer o unedau gwahanol iawn gyda ni heb fawr o gysylltiad rhyngddyn nhw. Mae dod yma nid yn unig wedi rhoi man newydd a hyfryd i'n cleifion, ond mae wedi dod â'r gymuned ynghyd hefyd mewn un ganolfan. Mae pawb yn gweithio'n dda iawn gyda'i gilydd, ac yn fy marn i rydyn ni wedi dod â'r gymuned i mewn i'r ysbyty yn llwyddiannus."

I wyllo'r fideo, cliciwch ar y ddolen: <https://www.facebook.com/ysbytycwmrhondda/videos/322585362026134/>



Ymgyrch iechyd y geg Cynllun Gwên

Mae Cynllun Gwên yn rhaglen genedlaethol i wella iechyd y geg, ac mae'n cael ei hariannu gan Lywodraeth Cymru. Mae'n ymgyrch ynghylch iechyd y geg sy'n targedu plant, a'i ffocws yw atal pydredd dannedd ymysg plant mewn lleoliadau cyn oed ysgol ac ysgolion cynradd rhwng 0-7 oed. Lanswyd Cynllun Gwên yn 2009, ac erbyn hyn mae dros 90,000 o blant yng Nghymru yn cymryd rhan mewn sesiynau golchi dannedd dan oruchwyliaeth mewn meithrinfeydd ac ysgolion.

Mae pydred dannedd yn broblem i blant o ardaloedd difreintiedig yn enwedig. Mae cyfraddau o afiechyd deintyddol ymysg plant yng Nghymru yn parhau i wella ledled y wlad. Mae'r arolwg diweddaraf yn dangos gostyngiad o 13.4% yn nifer y plant gyda phydredd dannedd, ac mae gostyngiad o 15% wedi bod mewn ardaloedd difreintiedig.

Mae'r rhaglen hefyd wedi sicrhau gostyngiad o 35% yn nifer y plant sy'n cael triniaethau deintyddol o dan anaesthesia cyffredinol dros y chwe blynedd diwethaf, ac mae 3,200 yn llai o blant bob blwyddyn yn cael triniaeth i dynnu dannedd sydd wedi pydru.

Yng Nghwm Taf Morgannwg, mae gennym dros 200 o feithrinfeydd ac ysgolion sy'n cymryd rhan yn y rhaglen golchi dannedd ddyddiol. Oherwydd bod Cynllun Gwên yn rhaglen wedi'i thargedu, mae'r meithrinfeydd a'r ysgolion hyn oll mewn ardaloedd difreintiedig (yn ôl Mynegrif Amddifadedd Lluosog ar gyfer Cymru 2014), ac mae gan Gwm Taf Morgannwg rai o'r cyfraddau uchaf o bydredd dannedd ymysg plant 5 oed yng Nghymru.



Llwynypia yn y Rhondda, ac mae modd gweld Dewi yn cyflwyno'r wobwr ar Twitter. Cynhaliodd Ysgol Gynradd yr Hafod wasanaeth gwobrwyo arbennig hefyd, a chafodd rhieni eu gwahodd i weld Dewi'r Ddraig yn cyflwyno'r wobwr i nodi deng mlynedd.

Mae modd gweld yr adroddiadau data trwy ddilyn y ddolen ganlynol. Rydym yn adrodd ein gweithgarwch o ran Cynllun Gwên i Lywodraeth Cymru trwy Uned Gwybodaeth Iechyd Geneuol Cymru yn Ysgol Deintyddiaeth Prifysgol Caerdydd.

<https://www.cardiff.ac.uk/cy/research/explore/research-units/welsh-oral-health-information-unit>

Wrth gymharu data o 2007/8 â data o 2015/16, mae'r cyfraddau o bydredd dannedd ymysg plant 5 oed yng Nghymru wedi gostwng i 34.2%, sef gostyngiad o 13%. Mae'n debygol bod Cynllun Gwên wedi sicrhau hyn.

Mae llawer o'r ysgolion a'r meithrinfeydd hyn wedi bod yn rhan o Gynllun Gwên ers ei lansio, ac yn 2019 dathlodd y Cynllun ei ben-blwydd yn 10 oed. Cynhaliwyd cystadleuaeth i ddylunio cerdyn pen-blwydd i fasgot Cynllun Gwên, Dewi'r Ddraig.

Cafodd gwobr arbennig ei rhoi i lawer o ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg i nodi degawd, i'w hychwanegu at eu placiau. Mae'r placiau hyn yn rhai Efydd, Arian ac Aur i gydnabod y rhai sydd wedi parhau i gymryd rhan. Un o'r ysgolion hyn oedd Ysgol Gynradd





AROS YN IACH HYRWYDDO POBL I GADW’N IACH

Trwy rymuso pobl i
wneud penderfyniadau
am eu hiechyd eu hunain
ac ymddygiadau
cysylltiedig byddant
yn gallu rheoli eu hiechyd
a’u lles eu hunain.
Nid ychwanegu blynyddoedd
at fywyd yn unig yw’r
gwerth ychwanegol
hanfodol go iawn, ond
bywyd i flynyddoedd.

Mae Meddygfa’r Hen Ysgol ym Mhont-y-clun wedi ymuno â’r RHA (sef Cymdeithas Dai’r Rhondda gynt) i lansio grŵp cerdded newydd i gleifion. Nod y grŵp yw annog cleifion i wella eu ffitrwydd heb angen mynd i’r gampfa.

Mae’n cael ei gefnogi gan RHA, a hynny’n rhan o raglen BeActive sy’n hyrwyddo gweithgareddau i wella ffitrwydd corfforol ac iechyd meddwl ledled ardal Rhondda Cynon Taf.

Dywedodd y Dr Paula Varma, sy’n gweithio ym Meddygfa’r Hen Ysgol ac a fydd yn cyd-gerdded ag aelodau o dîm y feddygfa: “Rydyn ni’n frwd iawn dros hyrwyddo iechyd a lles ac am ei gwneud yn haws i bobl yn yr ardal gymryd rhan mewn gweithgareddau fydd yn gwneud iddyn nhw deimlo’n well ac yn fwy iach.



“Rydyn ni’n gwybod y gall mynd i’r gampfa godi ofn ar bobl, felly roedden ni am gynnig rhywbeth gwahanol sy’n hawdd ei wneud, sydd yn yr awyr agored ac sydd ar gael i unrhyw un ei wneud ni waeth beth yw ei allu neu ei oedran.

“Does dim pwysau i gerdded yn gyflym, a po leiaf o ymarfer corff rydych chi’n wneud nawr, mwyaf y budd o gymryd rhan, felly beth amdani?

Mae'r grŵp cerdded yn agored i bawb sydd am wella ei ffitrwydd cyffredinol a'i les.

Mae cleifion sy'n dangos arwyddion cynnar o ddiabetes hefyd yn cael eu hannog yn gryf i ddod. Mae diabetes yn broblem sy'n mynd yn waeth ac yn waeth ac sy'n effeithio ar lawer o bobl, ond gall newid deiet a gwneud ymarfer corff yn rheolaidd helpu i'w atal rhag datblygu yn y bobl hynny sy'n dangos arwyddion cynnar o'r cyflwr.

Bydd y grŵp cerdded yn cyfarfod bob Dydd Mercher am 10am yn siop goffi'r Thirsty Elephant ar Heol y Bont-faen, Pont-y-clun, a bydd y grŵp dan arweiniad tywysydd cerdded cymwysedig. Mae'n rhad ac am ddim, ac mae croeso i gŵn. Bydd y daith gyntaf yn un gylchol o amgylch Pont-y-clun, ac yn mynd o Neuadd Glanelái (Lanelay Hall) yn Nhonysguboriau, ac yn dod yn ôl ar lan yr afon i'r pwynt cychwyn. Bydd y daith yn para ryw awr.

I ymuno â'r grŵp, ffoniwch 01443 424272. Dylai cyfranogwyr wisgo trenyrs neu esgidiau cerdded, a dillad cyfforddus.

Mae'r grŵp cerdded yn rhan o ystod o wasanaethau sydd ar gael yn y gymuned, sydd oll yn cael eu hyrwyddo yn rhan o ymgyrch #EichTîmLleol Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Nod yr ymgyrch yw codi ymwybyddiaeth am yr ystod o weithwyr gofal iechyd proffesiynol yn y gymuned all helpu cleifion heb orfod mynd i weld meddyg teulu. I gael gwybod rhagor, ewch i www.cwmtafmorgannwg.wales neu dilynwch

#YourLocalTeam #EichTîmLleol ar y cyfryngau cymdeithasol.



Disgwyl i'r Cydlynnydd Celf ac Iechyd newydd hybu lles

Mae datblygiadau mawr wedi bod ym maes y Celfyddydau ac Iechyd yn BIP CTM yn ystod 2019-20.

Ymhlith y datblygiadau hyn y mae rhoi camau cyntaf ein Strategaeth Celfyddydau, Iechyd a Lles ar waith ar gyfer 2018-2021, sy'n cynnwys partneriaeth â Chyngor Celfyddydau Cymru. Yn hynny o beth rydym wedi cyflogi Cydlynnydd Celf ac Iechyd, Esyllt George, a ddechreuodd yn y swydd ym mis Medi 2019, ac mae rhaglen celfyddydau ac iechyd i hybu lles ymysg cleifion, staff a chymunedau wedi cael ei lansio yn ardal Cwm Taf Morgannwg.

Ymysg y mentrau yr ydym yn gobeithio eu sefydlu y mae prosiect eco-gelf i greu gosodiadau wedi'u creu o ddeunyddiau sydd wedi'u hailgylchu gan y Bwrdd Iechyd, recriwtio nifer o bencampwyr y celfyddydau ac iechyd gwirfoddol a chynnal arddangosfa ffotograffiaeth sy'n cynnwys y tri phrif ysbty.

Yn dilyn Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol gan Lywodraeth Cymru, lansiodd y Bwrdd Iechyd strategaeth celfyddydau, iechyd a lles sy'n ymrwymo i rôl y celfyddydau ac iechyd yn ein gwaith. Mae'r strategaeth hon yn dathlu gwaith da'r Bwrdd Iechyd ers 1998, yn ogystal â datblygu gweledigaeth a chenhadaeth ar gyfer y dyfodol.

"Ein gweledigaeth yw datblygu rhaglen gelfyddydau sy'n cefnogi ac yn meithrin ein cleifion, ein staff, ein hymwelwyr a'r gymuned ehangach mewn nifer o ffyrdd ystyrlon sy'n gwella bywydau. Ein cenhadaeth yw datblygu partneriaethau gwerth chweil â sefydliadau ac ymarferwyr unigol ar draws llawer o fathau o gelfyddyd. Rydyn ni'n bwriadu datblygu amgylcheddau cadarnhaol a hyrwyddo cyfranogiad creadigol mewn amrywiaeth eang o ffyrdd, gan annog ymdeimlad o gymuned a chysylltedd.

Mae llawer o addewidion eisoes wedi cael eu gwneud ar draws y Bwrdd Iechyd, gyda'r staff a gwirfoddolwyr yn awyddus i ymuno. Ychwanegodd Esyllt: "Mae fy rôl i'n cynnwys casglu a datblygu syniadau yn ogystal â rhoi cynlluniau ymarferol ar waith i wireddu'r syniadau hyn. Mae'n braf iawn bod yn rhan o dîm brwdfrydig ac ymroddgar ac rydw i'n gobeithio gweithio'n agos gyda'r staff, cleifion, cymunedau lleol a phartneriaid i gasglu, creu, datblygu ac ysbrydoli. Os ydych chi am gael sgwrs gyda fi neu os ydych chi am drafod pethau ymhellach, cysylltwch â fi!"

Gallwch chi gysylltu ag Esyllt ar esyllt.george@wales.nhs.uk.

Cynllun Ysgolion Iach Cwm Taf Morgannwg

Llongyfarchiadau i Ysgol Iau Ton Pentre ar lwyddo yng Ngham 6 Cynllun Ysgolion Iach Cwm Taf Morgannwg!



Mae Sefydliad Iechyd y Byd yn cydnabod bod gan Fframwaith Ysgolion sy'n Hybu Iechyd rôl bwysig i'w chwarae yn y gwaith o hybu iechyd plant a phobl ifanc.

Mae Cynllun Ysgolion Iach Cwm Taf Morgannwg yn cael ei reoli'n ganolog trwy Iechyd Cyhoeddus Cymru, ac mae Tîm Iechyd Cyhoeddus Lleol Cwm Taf Morgannwg yn rhedeg y cynllun o ddydd i ddydd ar ddwy safle, y naill ym Mharc Iechyd Keir Hardie ym Merthyr Tudful a'r llall yng Nglan-rhyd, Pen-y-bont ar Ogwr. Mae'r Cynllun yn cynnwys y tri Chynllun ar gyfer Rhondda Cynon Taf, Merthyr Tudful a Phen-y-bont ar Ogwr. Mae pob un o'r **203** o ysgolion yng Nghwm Taf Morgannwg wedi eu cofrestru â Chynllun Ysgolion Iach - Rhwydwaith Cymru.

Mae Cynllun Ysgolion Iach Cwm Taf Morgannwg yn cydweithio ag ystod o sefydliadau. Yn eu plith mae Bwrdd Cyngori Iechyd Rhywiol Cwm Taf, cydweithwyr ym maes addysg, adrannau arlwygo yn yr Awdurdodau Lleol, y Gwasanaeth Ymgysylltu a Chyfranogiad Ieuenctid, Dietegwyr Iechyd y Cyhoedd, Cynllun Gwên, prosiect Sbectrwm Hafan, Barod, Seicolegwyr Addysg, gwasanaethau cwnsela, Y Rhwydwaith Ymchwil Iechyd mewn Ysgolion, Nyrsys Ysgol, a Gwasanaethau Iechyd Meddwl Plant a Phobl Ifanc (CAMHS) ac yn y blaen.

Mae hyfforddiant am ddim yn cael ei ddarparu yn rheolaidd i ysgolion i hybu'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a pherthnasau, diogelwch (gan gynnwys diogelwch yn yr haul, diogelwch personol a diogelwch a y we), camddefnyddio sylweddau, maeth, hylendid, ac iechyd a lles emosiynol (i ddisgyblion a staff). Mae ystod o adnoddau wedi eu datblygu i gyd-fynd â'r ddarpariaeth ar gyfer datblygiad personol a pherthnasau, camddefnyddio sylweddau, hylendid a maeth.

Ar ôl cwblhau'r chwe cham, mae ysgol yn cael ei henwebu am y Wobr Ansawdd Genedlaethol sy'n cael ei rhoi gan gynrychiolydd o Lywodraeth Cymru. Mae'r Wobr Ansawdd Genedlaethol yn cael ei dyfarnu i ysgolion sydd wedi cyflawni'r safonau uchaf ym mhob un o saith agwedd iechyd a lles Ysgolion Iach.

Dull Parthau Cymunedol o feithrin cymunedau gwydn


Mae'r Bwrdd Iechyd yn chwilio am ddulliau newydd o feithrin gwytnwch mewn cymunedau lleol, ac mae'r weledigaeth i gyflawni hyn i'w gweld isod:

"Dull integredig o feithrin cymunedau gwydn, sy'n atal ac yn lleddfu ar effeithiau Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac sy'n chwalu'r cylch o'r naill genhedlaeth i'r llall o adfyd sy'n heriol i gynifer o deuluoedd ledled Cwm Taf".


I gyflawni'r weledigaeth hon, fe fyddwn yn cydweithio â'n sefydliadau partner yn fwy effeithiol trwy ddefnyddio un dull unigol sef "Parthau Cymunedol".

Bydd y dull unigol hwn yn cael ei dreialu yn y Gurnos ym Merthyr Tudful ac yn Rhondda Fach Uchaf, a bydd yn cynnwys y canlynol:

- Mynd ati gan ddefnyddio dull sy'n canolbwyntio ar y gymuned gyfan, er mwyn deall rôl y ffactorau canlynol wrth achosi Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod ac er mwyn newid y profiadau hyn:
 - Y cyd-destun y mae teuluoedd yn byw ynddo;
 - Ffactorau yn ymwneud â rhieni a'r teulu;
 - Anawsterau ar yr aelwyd.
- Fframwaith atal, canfod cynnar ac ymyrryd newydd sy'n galluogi unigolion a'u teuluoedd i ddod o hyd i gymorth heb stigma cyn gynted â phosibl er mwyn atal problemau rhag gwaethygu.



*Dull integredig yn seiliedig ar le i
adeiladu cymunedau gwydn*



GOFAL DIOGEL CADW POBL YN DDIOGEL

Er bod gan ddarparu gofal ryw elfen gysylltiedig o risg o niwed mae gennym gyfrifoldeb ar y cyd â'n cyhoedd am iechyd, diogelwch a lles pobl sy'n eu cadw'n ddiogel rhag niwed a'u cefnogi i amddiffyn eu hunain rhag niwed hysbys. Rydym yn parhau i ymdrechu i sicrhau y bydd pobl yn cael eu cadw'n ddiogel ac yn cael eu hamddiffyn rhag niwed y gallir ei osgoi trwy ofal, triniaeth a chefnogaeth briodol.

Canfod oedolion â salwch aciwt yn y gymuned yn gynnar

Mae llawer iawn o waith wedi ei gwblhau hyd yma ym maes Gofal Sylfaenol a'r Gyfarwyddiaeth Lleoliadau er mwyn cyflwyno NEWS yn y gymuned.

Mae NEWS (*National Early Warning System*, neu Sgôr Rhybudd Cynnar Genedlaethol yn y Gymraeg) yn ddull o sicrhau diogelwch cleifion ac o wella canlyniadau iechyd. Mae wedi ei ddatblygu gan Goleg Brenhinol y Meddygon i ganfod achosion o ddirywiad clinigol ac i ymateb iddynt.

Canolbwynt y gwaith yw timau Cymunedol a Gofal Sylfaenol, ac unigolion y mae eu cyflwr yn dirywio'n ddifrifol neu y mae risg y bydd eu cyflwr yn dirywio'n ddifrifol. Y nod yn y pendraw yw lleihau niwed a lleihau hefyd yr amrywiaeth yn y gofal y mae'r cleifion hyn yn ei dderbyn.

Y gred yw bod dros 70% o achosion o sepsis yn codi yn y gymuned (NCEPOD, Just Say Sepsis, 2015). Mae Cymru Iachach (2018) hefyd yn cydnabod yr angen i ganolbwyntio ar waith atal a chanfod yn gynnar yn nes at adref.

Hyd yma, rydym wedi gwneud y canlynol:

- Sicrhau cyllid ar gyfer yr offer priodol er mwyn canfod unigolion y mae eu cyflwr yn dirywio;
- Adolygu ein dogfennaeth, ac rydym wrthi'n datblygu dogfennaeth arbennig ar gyfer cymunedau a fydd yn cynnwys llwybr uwchgyfeirio;
- Datblygu pecyn hyfforddiant, ac mae angen cynllunio bellach er mwyn trefnu a chydlynu sut y bydd hyfforddiant yn cael ei ddarparu i bob aelod o staff yn y gwasanaeth Nyrsio Ardal a'r gwasanaeth @Home.

Rydym yn edrych ymlaen at roi gwybod i chi am effaith y gwaith hwn dros y flwyddyn i ddod.

Adrodd am Ddigwyddiadau Diogelwch Cleifion

Y diffiniad o ddigwyddiad diogelwch cleifion yw “*unrhyw ddigwyddiad anfwriadol neu annisgwyl y gallai fod wedi niweidio un claf neu sawl claf, neu a niweidiodd un claf neu sawl claf, wrth roi gofal iechyd a ariennir gan y GIG*”.

Adroddwyd cyfanswm o **19,064** o ddigwyddiadau diogelwch cleifion trwy system adrodd y Bwrdd Iechyd. Isod rydym yn tynnu sylw at ychydig o’r gwaith rydym wrthi’n ei wneud er mwyn lleihau nifer y digwyddiadau diogelwch cleifion:

Wlserau Pwyso

Mae Cyfarwyddiaethau Clinigol yn ymchwilio i bob achos o wlser pwyso Gradd 3 a 4, gan ddefnyddio teclyn ymchwilio i Gymru Gyfan, ac mae’r gwersi a ddysgwyd yn sgil yr ymchwiliadau hyn yn cael eu rhannu’n lleol â thimau gwella.

Roedd tystiolaeth bod gan 95% o gleifion yr oedd angen cymorth arnynt i ofalu am eu croen gynllun gofal wedi’i ddiweddarau, ac roedd tystiolaeth hefyd fod y cynllun hwnnw’n cael ei ddilyn, ei werthuso ai’i adolygu o fewn yr amserlen briodol.
(Ffynhonnell: Archwiliad i Safonau Gofal Iechyd Hyd - Tach 2019)

Paneli Archwilio Wlserau Pwyso

Er mwyn cefnogi diwylliant o ddysgu a gwella, rydym wedi cyflwyno rhaglen bythefnosol o archwiliadau panel, lle byddwn yn craffu ar bob achos o wlserau pwyso.

Ar y panel mae un o’r Penaethiaid Nyrsio, Nyrs Hyfywedd Meinwe, a Rheolwr Gwella Diogelwch. Mae’r Uwch-nyrs, Rheolwr y Ward a staff y ward yn mynd i’r paneli ac yn cyflwyno eu hachosion gan ddefnyddio cofnodion nyrsio’r cleifion. Mae’r cofnodion hyn wedyn yn cael eu hadolygu i nodi unrhyw feysydd lle mae angen gwella a dysgu.

Lle mae achos o niwed yn codi y gellid bod wedi ei osgoi, mae hyn yn dangos bod cyfleoedd wedi eu colli ac mae atgyfeiriad yn cael ei wneud o ran diogelu cleifion.

Mae cynllun yn cael ei lunio wedyn er mwyn mynd i’r afael â phob achos o golli cyfleoedd er mwyn gwella gofal, profiad y claf a chanlyniadau iechyd, ac mae gostyngiad canrannol yn cael ei bennu i leihau achosion o wlserau pwyso ar lefel glinigol sy’n cael ei fonitro i wirio cynnydd.

Ymhlith manteision y broses hon a gydnabuwyd yn ddiweddar y mae:

- ymwybyddiaeth o bwysigrwydd defnyddio’r offer cywir yn y lle cyntaf;
- uwchgyfeirio unrhyw anawsterau o ran cael gafael ar offer;
- symud cleifion mewn modd ystyrlon (yn hytrach na symud y claf yn ôl i’w safle arferol);
- defnyddio gwelyau gyda brecio pen-gliniau i godi’r pen-glin.
- defnyddio clustogau pan fydd y claf yn eistedd ar gadair

Atal achosion o gwmpo

Mae diogelwch cleifion yn flaenoriaeth i ni, ond mae lleihau achosion o gwmpo yn yr ysbyty yn her o hyd. Er i ni barhau i brofi a datblygu mentrau i'n helpu i drechu'r broblem hon, nid ydym ond wedi gweld gostyngiad bach yn nifer yr achosion o gwmpo. Ni allwn atal pob un achos o gwmpo hyd yn oed ymhlith pobl sy'n aros yn yr ysbyty, ond rydym yn ymrwymedig fel Bwrdd Iechyd i leihau nifer yr achosion o gwmpo y gellid eu hosgoi ac unrhyw anafiadau y gall cwmpo eu hachosi.

Yn y Datganiad hwn y llynedd, dywedom fod Bwrdd Iechyd Cwm Taf yn 2019/2020 wedi ymrwymo i gefnogi prosiect â'r nod o gynnal cryfder, cydbwysedd a lles meddyliol cleifion tra byddant yn yr ysbyty. Y flaenoriaeth yw helpu cleifion i wella a chael eu cefn atynt cyn gynted â phosibl. Trwy gynnal cryfder a chydbwysedd cleifion, bydd yn llai tebygol y byddant yn cwmpo. Isod, rydym yn tynnu sylw at y gwaith yr ydym yn ei wneud ar adeg llunio'r Datganiad hwn.

Ein Prosiect Cydweithredol Byr ar gyfer Cwmpadau

Yn dilyn nifer o newidiadau llwyddiannus a wnaed ar un o'n wardiau gofal aciwt, rydym wedi sefydlu prosiect cydweithredol byr i ystyried sut y gallwn rannu'r arferion da hyn ledled y Bwrdd Iechyd.

Rydym wedi dod ag unigolion allweddol ynghyd o ddwy ward ar bob un o'n safleoedd ysbyty. Mae dwy fenter yr hoffem roi cynnig arnynt a'u cymharu, i weld pa un sy'n effeithio fwyaf ar leihau achosion o gwmpo. Y mentrau yw:

1. Y Fframwaith Goruchwylio Uwch
2. Cylchdroi Gofal Cleifion

Y Fframwaith Goruchwylio Agos

Gelwir hwn weithiau yn 'nyrsio 1:1' neu '*specialling*', ac mae goruchwylio agos yn rhan bwysig o gynllun y claf. Mae hyn yn cynnwys monitro iechyd corfforol a lles meddyliol y claf mewn modd diogel a sensitif, wrth annog y claf ar yr un pryd i gymryd rhan mewn gweithgareddau ystyrlon. Mae goruchwylio agos yn cael ei wneud dan ofal nyrs gofrestredig neu weithiwr cymorth gofal iechyd fel arfer. Bydd y nyrs yn cadw'r claf mewn golwg ar bob adeg, a bydd yn annog y claf i sgwrsio ac weithiau i gymryd rhan mewn gweithgareddau fel darllen, gwrando ar gerddoriaeth neu chwarae gêm. Nod hyn yw helpu i gadw'r claf yn brysur fel ei fod yn aros yn llonydd, ac mae hyn yn ei dro yn helpu i leddfu ar ofid. Mae pedair lefel wahanol o oruchwylio agos, o oruchwylio ysbeidiol i oruchwylio dwysach lle bydd aelod o staff wrth ochr y claf ar bob adeg. Bydd y cyfnod o amser y bydd goruchwylio agos yn para yn amrywio o glaf i glaf yn dibynnu ar anghenion y claf hwnnw.

Cylchdroi Gofal Cleifion

Yn y sefyllfa sydd ohoni ar hyn o bryd o ran gofal iechyd, mae treulio rhagor o amser gyda chleifion yn heriol. Mae Cylchdroi Gofal Cleifion yn ddull strwythuredig lle mae nyrsys yn bwrw golwg dros y cleifion ar amseroedd penodol ac yn diwallu eu hanghenon gofal hanfodol. Wrth gynnal y gwiriadau hyn, mae nyrsys yn cwblhau tasgau sydd wedi eu hamserlennu neu dasgau gofynnol. Mewn geiriau eraill, mae pob 'cylchdro' yn cael ei wneud â bwriad mewn golwg - mae diben iddo. Mae'n helpu timau rheng flaen i gydlynu gofal cleifion a diwallu anghenion pob claf. Yn ogystal, mae cysondeb y gofal yn rhoi hyder i staff a chleifion fel ei gilydd.

Nod gwell dibynadwydd o ran tasgau a amserlennir yw lleihau achosion o wlserau pwyso a chwympo. Yn ein barn ni, os gallwn roi'r broses ar waith mewn modd dibynadwy, yna bydd hyn yn lleihau achosion o wlserau pwyso, chwympo ymysg cleifion, cwynion ac arwahanu cymdeithasol ymysg cleifion gyda dementia, a bydd hefyd yn gwella maeth cleifion a faint maent yn ei yfed.

Rydym yn edrych ymlaen at adrodd am ein canfyddiadau dros y 12 mis nesaf.

Yn 2020/21, mae BIP Cwm Taf Morgannwg yn ymrwymedig i gefnogi prosiect sy'n canolbwyntio ar gynnal cryfder, cydbwysedd a lles meddyliol cleifion tra byddant yn yr ysbyty. Y flaenoriaeth yw helpu cleifion i wella a sicrhau eu bod yn cael eu cefn atynt cyn gynted â phosibl. Bydd cynnal cryfder a chydbwysedd cleifion yn lleihau'r risg o gwympo, a gwyddom fod cleifion yn aml yn treulio llawer o amser yn eu pyjamas a gall hynny wneud iddynt deimlo'n anghyfforddus ac yn agored i niwed. Mae helpu cleifion i wisgo a chodi o'r gwely hefyd yn helpu i wella eu lles meddyliol ac yn eu galluogi i gymryd rhan amlwg yn eu llwybr iechyd personol. Yn ogystal â hynny, mae tystiolaeth ei bod yn helpu i ryddhau pobl o'r ysbyty yn gynharach.

Atal a Rheoli Heintiau

Yn ein datganiad y llynedd, dywedom y byddem yn ehangu'r **sgrym Atal a Rheoli Heintiau** i adolygu ac archwilio pob haint y gellir ei atal mewn gofal eilaidd a gofal sylfaenol.

Hyd yn hyn, rydym wedi cyflwyno sgrym amlddisgyblaethol Atal a Rheoli Heintiau er mwyn adolygu pob haint sy'n gysylltiedig â phibellau yn ein hysbytai. Caiff yr adolygiadau hyn eu cadeirio gan Swyddog Gweithredol yn y Bwrdd Iechyd sy'n darparu'r lefel briodol o nawdd a chymorth ar gyfer y dull hwn o weithio.

Mae'r Nyrsys Atal a Rheoli Heintiau yn cynnal archwiliad Atal a Rheoli Heintiau ar gyfer heintiau bacteremia eraill y gellir eu hatal, er enghraifft cathetrau wrinol. Caiff hyn ei rannu â'r Ward/y Tîm Nyrsio Ardal/Tîm y Coluddyn a'r Bledren er mwyn archwilio ymhellach a rhannu gwersi a ddysgwyd. Ar hyn o bryd, mae'r broses hon yn cael ei chynnal ar bapur ac rydym yn bwriadu cyflwyno "sgrym Atal a Rheoli Heintiau" ar gyfer y rhain hefyd.

Yn ogystal â hynny, mae'n braf gennym rannu'r diweddariadau canlynol:

- O ganlyniad i gynnwys Ysbyty Tywysoges Cymru yn rhan o hen BIP Cwm Taf, rydym wedi penodi 5 Nyrs Atal a Rheoli Heintiau newydd er mwyn helpu'r cyfarwyddiaethau a'r adrannau i ddarparu gwasanaeth Atal a Rheoli Heintiau cynhwysfawr.
- Rydym wedi cyflwyno system arolygu gadarn a phroses adrodd gadarn ar gyfer heintiau yn sgil toriadau Cesaraidd. Bydd y rhain yn ennyn mwy o hyder yn ein data a'n cyfraddau heintio.
- Rydym wedi sicrhau lleihad mewn bacteremia *S.aureus* a bacteremia gram-negatif o'i gymharu â 2018/19.

Amddiffyn a Diogelu'r Cyhoedd

Eleni, rydym wedi canolbwyntio ar y newid i'r ffin a sicrhau bod gweithdrefnau diogelu'n effeithiol ar draws y sefydliad newydd. Er mwyn cyflawni hyn, roedd gofyn i nifer o fawr o asiantaethau gydweithio gydag asiantaethau partner ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn ogystal â staff y Bwrdd Iechyd. Crëwyd canllawiau ar gyfer cydweithwyr newydd er mwyn eu helpu i ymateb i bryderon sy'n ymwneud â diogelu ac i gyfeirio'r pryderon hyn at y Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth. Mae'r **Canolfannau Diogelu Amlasiantaeth** (MASH) yn bwynt cyswllt sengl lle gall pob gweithiwr proffesiynol adrodd pryderon sy'n ymwneud â diogelu ar draws Cwm Taf Morgannwg. Mae Canolfan Diogelu Amlasiantaeth Cwm Taf a Chanolfan Diogelu Amlasiantaeth Pen-y-bont ar Ogwr wedi bod ar waith yn llawn ers mis Mai 2015 ac ers 2018 yn eu tro. Fe'u sefydlwyd er mwyn gwella ymarferion diogelu, gydag asiantaethau'n cydweithio mewn un lle i dderbyn pob atgyfeiriad sy'n ymwneud â diogelu ac i rannu gwybodaeth berthnasol am asiantaethau er mwyn gwneud penderfyniadau ar y cyd. Mae BIP CTM wedi buddsoddi'n llawn yn y Ganolfan ac yn cydweithio'n llwyddiannus â phartneriaid er mwyn amddiffyn plant ac oedolion sy'n agored i niwed rhag camdriniaeth.

Ymarfer Diogelu Da

Gwella gofal ar gyfer genedigaethau lluosog a gefeilliaid

Dangosodd trychinebau diogelu lleol fod profiad teuluoedd gyda gefeilliaid yn debyg iawn i'r profiadau a adroddwyd mewn adolygiadau lleol a chenedlaethol o ymarfer plant ac yn y dystiolaeth ehangach. Tynnwyd sylw at y posibilrwydd y gallai cael plant yn fuan ar ôl ei gilydd fod yn ffactor risg sylweddol mewn rhai teuluoedd o ran camdriniaeth. Mae genedigaethau lluosog a gefeilliaid yn enghreifftiau o hyn, a gall y rhain gynyddu'r tebygolrwydd o gamdriniaeth. Trwy weledigaeth, arweinyddiaeth a gweithio mewn partneriaeth ag eraill, datblygwyd cynnig ar gyfer cynorthwyo bydwagedd ac ymwelwyr iechyd gyda genedigaethau lluosog a gefeilliaid. Arweiniodd hyn at sefydlu llwybr cynhwysfawr â'r nod o wella canlyniadau i blant a theuluoedd trwy leihau'r tebygolrwydd o gamdriniaeth, esgeulustod a niwed o ganlyniad i enedigaethau lluosog. Bydd hyn, felly, yn lleihau eu risg o orfod bod dan ofal.

Trwy weithredu'r llwybr, mae modd i wasanaethau iechyd gydweithio a chydlynu'n well, ac mae hefyd yn gwella'r gwaith o asesu dymmeg teuluoedd trwy ddisgwyl cydweithrediad a chydlyniad rhwng gweithwyr iechyd proffesiynol ar adegau allweddol. Mae'r llwybr yn helpu gweithwyr proffesiynol i sicrhau bod gefeilliaid yn cael eu trin fel unigolion ar wahân. Yn ogystal â hynny, mae'r drefn lle mae sawl gweithiwr proffesiynol yn cydlynu ymweliadau yn amharu'n llai ar deuluoedd ac yn sicrhau bod y cymorth priodol ar gael ar yr adeg briodol, gan gynnwys adnoddau arbenigol i gynorthwyo teuluoedd.

Mae'r llwybr wedi ei rannu â Byrddau Iechyd eraill sydd wedi mabwysiadu'r ymarfer o ofal uwch neu 'enhanced care'. Mae'r llwybr yn sicrhau gwasanaeth cyfartal i bob plentyn, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth, gwella dealltwriaeth a blaenoriaethu anghenion teuluoedd gyda gefeilliaid. Mae hefyd yn helpu i ganfod risg yn gynnar er mwyn ymyrryd yn gynnar, ar y cyd â helpu gweithwyr proffesiynol a defnyddwyr ein gwasanaethau i 'gyd-greu'. Yn bennaf oll, nod y llwybr yw rhoi grym i rieni a lleihau'r tebygolrwydd o gamdriniaeth. Mae buddsoddi yn y blynyddoedd cynnar wedi cael effaith gadarnhaol fawr ar iechyd plant, eu datblygiad cymdeithasol ac addysgol a'u canlyniadau tymor hwy.

Mae'r gwaith gwerthuso wedi ei wneud ac mae ymarfer uwch wedi cael adborth cadarnhaol gan deuluoedd a chydweithwyr.

Maeth a Hydradiad Cleifion




Nid yw pryd o fwyd yn dechrau pan fydd bwyd yn ymddangos ar y bwrdd ac nid yw'n gorffen gyda'r tamaid olaf. Mae amryw agweddau yn ymwneud â phryd o fwyd, gan gynnwys paratoi'r bwyd, disgwyl amdano, y man lle mae'r bwyd yn cael ei fwyta, y drafodaeth yn ystod y pryd, bwyta gydag urddas, diwedd y pryd a glanhau ar ei ôl. Mae'n bwysig sylweddoli bod llawer mwy i brofiad unigolyn o amser bwyd na'r bwyd ei hun.

Y llynedd, rhannom ein haddewid â chi i ddiwygio ein polisi presennol ynghylch gwarchod amser bwyd, fel bod amser bwyd yn rhoi profiad cadarnhaol i gleifion o amser bwyta â chymorth. Er i ni gwblhau'r gwaith polisi a chytuno arno, nid ydym wedi profi'r polisi newydd eto. Mae hyn yn bennaf oherwydd newid mewn blaenoriaethau. Byddwn yn blaenoriaethu'r gwaith hwn dros y 12 mis nesaf ac rydym yn gobeithio y bydd y prawf yn cael canlyniad cadarnhaol.

Hefyd yn Natganiad y llynedd, dywedom wrthyh chi am grŵp o fyfyrwyr nyrsio oedolion o Brifysgol De Cymru o'r enw Team Hydr8. Awgrymodd y grŵp y dylid cyflwyno caeadau melyn ar gyfer jygiau o ddŵr, yn hytrach na'r caeadau glas traddodiadol, i'r cleifion hynny y mae'r staff yn cadw golwg ar faint o ddŵr y maent yn ei yfed. Cafodd y caeadau eu treialu ar ward llawfeddygaeth yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg yn Llantrisant. Gymaint fu llwyddiant y treial fel y prynwyd rhagor o gaeadau ac fe'u cyflwynwyd i weddill y wardiau cleifion mewnol yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac yn Ysbyty'r Tywysog Siarl (nid oedd Ysbyty Tywysoges Cymru yn rhan o BIP CTM ar y pryd). Siomedig yw gorfod adrodd nad ydy'r caeadau wedi eu cyflwyno'n llawn a bod angen i ni edrych eto ar yr ymyriad hwn er mwyn darganfod pam nad yw hyn wedi digwydd. Byddwn wedyn yn cyflwyno strategaethau er mwyn goresgyn unrhyw rwystrau a nodir.



Er gwaethaf y problemau hyn, rydym yn gobeithio y bydd y gwaith gwella ynghylch amser bwyd a hydradiad yn parhau o ddifrif yn ystod y flwyddyn nesaf.

Profiad Cleifion o Amser Bwyd



Er mwyn i ni allu sicrhau bod ein gwasanaethau arlwyo yn gwella profiad cleifion o'u gofal, mae ein Tîm Cyfleusterau wedi creu arolwg o foddhad cleifion.

Ac nid dyna'r diwedd..... Maen nhw wedi cyflwyno arolwg o foddhad ar gyfer ein tai bwyta a'n siopau coffi hefyd!



(Mae'r data'n rhychwantu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020)

Er mwyn sicrhau ein bod yn gweithredu ar yr adborth hwn, rydym wedi defnyddio dull 'dywedoch chi, gwnaethom ni' wrth adrodd canlyniadau'r arolygon o foddhad a byddwn yn cofnodi pob un peth a wnaethom yn dilyn yr adborth. Dyma enghreifftiau o'r newidiadau a wnaed o ganlyniad uniongyrchol i'r adborth:



Dywedasoch

- + Mae cig moch yn rhy denau ac o ansawdd gwael
- + A allwch chi leihau gwastraff plastig mewn gwasanaethau arlwyyo
- + Allwch chi arddangos cynnwys calorïau dewisiadau prydau bwyd



Gwnaethon *Ni*

- + Adolygwyd yr opsiynau cig moch sydd ar gael trwy'r contractau Cymru Gyfan a chyflwynwyd cig moch wedi'i sleisio'n fwy trwchus
- + Disodlwyd y cynwysyddion tecawê polystyren gyda chynhwysydd cardbord ac mae cyllyll a ffyrc plastig yn cael eu diddymu'n raddol a'u disodli gan ddewis arall bambŵ cynaliadwy.
- + Mae'r byrddau bwydlenni electronig ym mwytai RGH a PCH yn arddangos cynnwys calorïau opsiynau prydau poeth. Bydd y rhain yn cael eu cyflwyno i fwytai a siopau coffi eraill.

GOFAL EFFEITHIOL CYFLWYNO'R GOFAL A CHEFNOGAETH GYWIR

Bydd sicrhau bod
pobl yn derbyn y
gofal a'r
gefnogaeth gywir
yn eu grymuso i
wella neu reoli eu
hiechyd a'u lles eu
hunain.



Sketch Perspective taken from the West

Gwaith yn dechrau ar Ganolfan Gofal Sylfaenol newydd gwerth £4 miliwm

Mae gwaith wedi dechrau ar Ganolfan Gofal Sylfaenol a Chymunedol newydd gwerth £4 miliwn yn Aberpennar.

Bydd y cyfleuster pwrpasol newydd, y disgwylir ei gwblhau yn 2020-21, yn gartref i ddwy feddygfa leol ac i amrywiaeth o wasanaethau cymunedol a fydd yn cael eu darparu gan Nyrsys Ardal ac Ymwelwyr Iechyd.

Bydd Canolfan Gofal Sylfaenol Aberpennar yn disodli hen adeiladau Canolfan Feddygol Cwm Cynon a Meddygfa Tŷ Rhos, sy'n darparu gwasanaethau ar hyn o bryd i 10,500 o gleifion yn yr ardal.

Bydd y safle 1,253 metr sgwâr yn adeilad o'r safon uchaf i'r ddwy feddygfa, a fydd yn ei gwneud yn bosibl iddynt ddarparu ystod ehangach o wasanaethau i gleifion yn y gymuned. Ar wahân i glinigau dan arweiniad y gymuned fel Gofal Clwyfau, bydd y cyfleuster hefyd yn cynnwys ystafell addysg iechyd ar gyfer sesiynau tylino babanod a chlinigau bwydo ar y fron, ystafell mân lawdriniaeth ynghyd â lle i wasanaethau iechyd a lles gwell.

Clwb Coesau'r Waun Wen



Mae ein Clwb Coesau Lindsay yn Nhrebannog yn cynnal dathliad dwbl. Yn ogystal â dathlu ei benblwydd yn un oed, mae'r clwb wedi ennill gwobr genedlaethol hefyd!

Y llynedd, cyhoeddom i ni ennill gwobr gan Grant y Loteri Genedlaethol.

Cafodd Clwb Coesau Lindsay y Waun Wen yn Nhrebannog yn y Rhondda £8,700 er mwyn helpu i gynnal y gwasanaeth newydd.

Mae clwb coesau cyntaf ardal Cwm Taf yng Nghanolfan Gymunedol y Waun Wen yn enghraifft wych o fenter gymunedol dan arweiniad gwirfoddolwyr sy'n helpu pobl i gadw'n iach ac i helpu ei gilydd.

Dogfennau Nyrsio Electronig

Mae'r nyrs arbenigol arweiniol ar gyfer gwybodeg yng Nghwm Taf Morgannwg wedi bod yn gweithio gyda chydweithwyr o'r Byrddau Iechyd ac o Lywodraeth Cymru i ddatblygu teclyn nyrsio digidol ar gyfer cleifion mewnol sy'n oedolion.


Cafodd treial llwyddiannus tair wythnos o hyd ei gynnal gan bob Bwrdd Iechyd ar ddechrau 2020 a dewiswyd Ward 3 yn Ysbyty Cwm Cynon i gynrychioli Cwm Taf Morgannwg. Yn ystod y treial, cafodd 40 o gleifion eu derbyn i'r ysbyty ar gyfer gofal nyrsio trwy ddefnyddio'r dull digidol newydd a chafodd 1,000 a mwy o ffurflenni eu cwblhau ar y system, gan gynnwys sgôr poen, asesiadau maeth, achosion o gwmpo ac asesiadau risg ar gyfer codi a chario.

Treialodd y staff amrywiaeth o ddyfeisiau gan gynnwys iPad, cyfrifiadur ar olwynion a Chromebooks.

Dyma rai o fanteision cwblhau dogfennau nyrsio yn ddigidol:

- Mae'n hawdd gweld bod gwybodaeth wedi ei chasglu a'i bod yn gyfoes;
- Maent yn glir ac yn hawdd eu canfod, heb orfod ceisio dod o hyd i nodiadau;
- Wrth ryddhau claf mewnol, mae nodiadau'r nyrs i'w gweld ym Mhorth Clinigol Cymru;
- Mae'n lleihau dyblygu gwaith;
- Mae modd adolygu nodiadau cleifion heb orfod mynd i'r ward;

Sylwadau gan y staff yn ystod y treial:



Mae'r treial wedi cael ei werthuso ar lefel leol a chenedlaethol ac mae'r gwaith yn parhau er mwyn gwella'r system ar ôl cael adborth. Bydd y tîm prosiect cenedlaethol yn datblygu ffurflenni a swyddogaethau yn ystod 2020 mewn cydweithrediad â chlinigwyr ledled Cymru ac maent yn gobeithio lansio'r system tua diwedd 2020.

Achrediad Cyfeillgar i Fabanod Cam 3 – y cyntaf yng Nghymru!!!



Rydym yn Ysbyty Tywysoges Cymru heddiw gyda'n cydweithwyr yn yr unedau gofal arbennig i fabanod er mwyn cyflwyno'r achrediad cyfeillgar i fabanod cam 3. Dyma'r uned gyntaf yng Nghymru i ennill yr achrediad hwn. Da iawn i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith!

Mae safonau seiliedig ar dystiolaeth wedi eu datblygu ar gyfer gwasanaethau mamolaeth, gwasanaethau newyddenedigol, ymweliadau iechyd/nyrsio iechyd cyhoeddus a gwasanaethau canolfannau plant (neu leoliadau blynyddoedd cynnar cyfatebol yng Nghymru, yn yr Alban ac yng Ngogledd Iwerddon). Bydd gweithredu'r safonau hyn yn gwella'r gofal a'r cymorth y mae menywod beichiog a mamau newydd a'u teuluoedd yn eu cael,


er mwyn eu helpu i feithrin perthynas gref â'u baban a'u helpu i fwydo'r baban a gofalu amdano.

Archwiliadau Clinigol

Yn rhan o'u Strategaeth Ansawdd, rhaid bod gan bob sefydliad yng Nghymru Flaengynllun Archwilio Clinigol ar waith, er mwyn cymryd rhan lawn yn yr holl adolygiadau o ganlyniadau ac archwiliadau clinigol cenedlaethol a restrir yn yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol Blynyddol ac yng Nghynllun Blynyddol yr Adolygiad o Ganlyniadau.

Mae archwiliadau clinigol yn rhan hollbwysig o broses sicrhau ansawdd y sefydliad, ac maent yn seiliedig ar dryloywder a gonestrwydd. Mae rhaglen yr Archwiliad Clinigol Cenedlaethol yn ein helpu i ddeall ansawdd y gofal rydym yn ei ddarparu a'n perfformiad o'u cymharu ag ysbytai eraill yn y DU. Yn ogystal â hynny, rydym yn cynnal llawer o archwiliadau mewn meysydd clinigol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn effeithiol ac yn ddiogel, a thrwy'r rhain mae modd tynnu sylw at yr angen i wella ynghyd â rhannu ymarfer da.

Mae'r adran wedi sicrhau buddsoddiad yn ei staff yn rhan o'r broses o greu'r sefydliad newydd ym mis Ebrill 2019. Mae hyn wedi ein galluogi i ailddylunio gwasanaethau archwilio clinigol ar draws



y sefydliad newydd er mwyn cefnogi model gweithio newydd y Grwpiau Lleoliad Integredig, gan wella'r prosesau llywodraethu a monitro ar gyfer archwiliadau cenedlaethol y sefydliad ac archwiliadau o brif flaenoriaethau'r sefydliad.


Fel rhan o ranbarth de Cymru, cafodd sefydlu Canolfan Trawma Mawr ei gymeradwyo yn Ysbyty Tywysoges Cymru ac yn Ysbyty'r Tywysog Siarl. Y nod yw gwella gofal clinigol a phrofiad cleifion drwy gyflwyno timau arbenigol a llwybr trawma mawr. Ym mis Ionawr 2020, yn sgil penodi dau Gydlynnydd y Rhwydwaith Archwilio ac Ymchwil Trawma (TARN) yn y Tîm Archwilio Clinigol, sicrhawyd bod y sefydliad yn llwyddo i gyrraedd y targed cydymffurfiaeth o 25 diwrnod ar ôl rhyddhau cleifion ar gyfer pob achos o drawma. Mae'r wybodaeth a gasglwyd yn rhan o archwiliad cenedlaethol TARN yn hanfodol wrth fonitro pa mor effeithiol ydy'r Canolfannau Trawma Mawr.

Mae'r sefydliad wedi cymryd camau i ddatblygu a chyflwyno model enghreifftiol i reoli'r cyfan o ganllawiau a safonau ansawdd y Sefydliad Cenedlaethol dros Ragoriaeth mewn Iechyd a Gofal (NICE). Bydd y Bwrdd Iechyd yn cydweithio â Swyddog Gweithredu NICE dros Gymru sydd newydd ei benodi yn ogystal â chydweithwyr o Lywodraeth Cymru a Byrddau Iechyd ledled Cymru. Bydd hyn yn sicrhau bod ein cymuned yn cael y triniaethau mwyaf cost effeithiol ac sydd fwyaf effeithiol yn glinigol ac, yn bwysicaf oll, bydd yn sicrhau gofal o ansawdd i ddefnyddwyr ein gwasanaethau. Yn rhan o'r gwaith hwn, mae cydlynnydd NICE eisoes wedi ei benodi a system wedi ei chaffael i hybu'r adolygiad systematig o holl ganllawiau a safonau NICE.

Ym mis Rhagfyr 2019, buddsoddodd y sefydliad mewn system monitro cydymffurfiaeth NICE ac archwilio clinigol. System arloesol yw hon fydd yn trawsnewid y ffordd y caiff archwiliadau clinigol eu cynnal a bydd yn ei gwneud yn haws, yn gyflymach ac yn fwy effeithiol i glinigwyr gymryd rhan mewn archwiliadau ar draws y sefydliad. Mae hyfforddiant y staff yn yr Adran Gwybodeg ar gyfer Ansawdd ac Archwilio Clinigol wedi ei gwblhau a'r bwriad yw ei gyflwyno i glinigwyr ar draws y sefydliad yn ystod 2020-21.

Dyma rai o'r datblygiadau allweddol eraill:

- Datblygu rhaglen hyfforddi newydd ar gyfer archwiliadau clinigol sydd wedi ei dylunio i roi'r sgiliau angenrheidiol i'r staff clinigol fel y gallant archwilio, dadansoddi a gwella gofal;
- Caffael 20 o leoedd i staff y Bwrdd Iechyd ar hyfforddiant archwilio clinigol achrededig, er mwyn arwain archwiliadau yn y Grwpiau Lleoliad Integredig newydd;
- Cyflwyno ffyrdd newydd o weithio er mwyn ymateb i COVID-19 sy'n cynnwys gweithio o gartref a chyfarfodydd tîm a chyfarfodydd archwilio ar-lein. Mae hyn wedi helpu i wella cyfathrebu a'r cyfranogiad o weithgareddau archwilio clinigol.



GOFAL URDDASOL CYFLWYNO'R GOFAL A CHEFNOGAETH GYWIR

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn profi amgylchedd gofal lle mae pawb yn cael eu trin â thosturi, urddas a pharch. Bydd y gofal a ddarperir yn ystyried anghenion, galluoedd a dymuniadau'r unigolyn.

Defnyddio drwm dynwared sŵn y môr ar gyfer babanod ar ein huned gofal babanod arbennig

Rydym wedi cyflwyno cerddoriaeth i'n huned babanod newydd-anedig yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Er bod llawer o ymchwil ddiweddar am fanteision therapi cerddoriaeth mewn unedau babanod newydd-anedig, nid oes darpariaeth yng Nghymru ar hyn o bryd. Rhoddodd yr astudiaeth hon gyfle i ni fesur pa mor dderbyniol a manteisiol yw therapi cerddoriaeth i rieni.

Nod yr astudiaeth oedd rhoi adnoddau i rieni, magu eu hyder a'u helpu i fod yn fwy cymwys gyda'u babanod. Yn ogystal â hynny, nod arall oedd gwella lles rhieni, lleihau'r gorbryder a'r iselder sy'n dod o orfod mynd â'u babanod i'r ysbyty a gwella'r cysylltiad rhwng rhieni a'u babanod.

Rhoddodd The Music Therapy Charity grant bach er mwyn helpu i gynnal y gweithdai. Cafodd gweithdy therapi cerddoriaeth awr o hyd ei gynnal gyda deg teulu gan therapydd cerdd sydd wedi ei gofrestru â'r Cyngor Proffesiynau Iechyd a Gofal. Estynnwyd gwahoddiad i famau a thadau, ac esboniodd y gweithdy iddynt pam mae canu a mwmlan i'w babanod yn fanteisiol. Bu modd i'r rhieni ddysgu am ddatblygiad eu babanod a'u gallu i glywed yn y groth, yn ogystal â'r ffordd orau o ganu i'w babanod. Cawsant gyfle i ymarfer canu a mwmlan gyda'r therapydd cerdd yn y gweithdy ac i ddysgu caneuon newydd yn ogystal â dewis eu hoff alawon. Cwblhaodd y rhieni holiaduron am eu profiad o'r gweithdy a p'un a gawsant fudd ohono ai peidio. Casglwyd gwybodaeth hefyd am eu lles, lefel eu gorbryder ac iselder a p'un a helpodd y gweithdy iddynt greu cysylltiad â'u babanod ai peidio.

Roedd gan bob rhiant sylwadau hynod gadarnhaol am fanteision y gweithdy. Er yr oeddent yn bryderus cyn y sesiwn, roeddent wedi ymlacio mewn dim o dro, ac roedd eu profiadau'n rhai cadarnhaol ac addysgiadol. Roedd y profiad wedi eu grymuso a



bu'n werth chweil iddynt. Ysgrifennodd un rhiant: "Roedd e'n dda iawn ac yn ffordd wych o gysylltu â'ch baban yn yr uned. Syniad gwych."

Ymhlith y mentrau eraill yn ein gwasanaethau newyddenedigol y mae:

Cardiau Cerrig Milltir

Y cardiau cerrig milltir yn yr Uned Babanod Newydd-anedig yn Ysbyty'r Tywysog Siarl – pan gyflwynom y cardiau cerrig milltir, roeddent yn eithaf poblogaidd i ddechrau. Ond dros amser, nid oedd y rhieni'n hoff ohonynt neu byddent yn dod â'u rhai eu hunain, felly ystyriom ffyrdd eraill i'r rhieni gymryd rhan.

Gweithiodd ein Tîm Gofal Teuluoedd Integredig gyda'n neonatolegydd a chyda sefydliadau allanol i greu digwyddiadau i gynnwys teuluoedd. Un o'r rheiny yw 'Aw'r Hwiangerddi', lle y bydd cerddorion allanol yn dod i'r uned am awr ac yn canu cerddoriaeth therapiwtig i wella datblygiad ymennydd babanod cynamserol, a bydd y rhieni yn cael gwybod sut i ddefnyddio offerynnau cerddorol arbennig a allai wella eu datblygiad hefyd. Cafwyd adborth rhagorol ar y digwyddiadau hyn.

Recordiadau o Guriad y Galon

Gweithiodd ein neonatolegydd gyda'n tîm a chreu dyfeisiau bach coch siâp calon i recordio curiad calon babanod er mwyn i'w rhieni fynd adref â nhw a'u cadw. Mae'r rhain yn gwella eu cysylltiad pan na fydd yn bosibl iddynt fod gyda'u baban, a chafwyd adborth rhagorol eto gan y rhieni a oedd yn dymuno cymryd rhan.



Y Gwasanaeth Asesu'r Cof



"Rydych chi'n trawsnewid bywydau pobl ac mae'n gyffrous iawn bod yma" meddai'r Comisiynydd Pobl Hŷn, Heléna Herklots, pan ymwelodd â Chwm Taf Morgannwg i gael gwybod mwy am ein gwasanaeth asesu'r cof arloesol.

Y llynedd, dywedom wrthyf chi am dîm newydd o therapyddion galwedigaethol a oedd wrthi'n datblygu gwasanaeth galluogi arloesol i gleifion gydag anghofrwydd cyfnod cynnar.

Cafodd Gwasanaeth Asesu'r Cof arloesol yr Adran Therapi Galwedigaethol ei gyllido gan y Cynllun Gweithredu ar Ddementia a dyma'r cyntaf o'i fath yng Nghymru. Cafodd y gwasanaeth ei sefydlu i geisio gwella cyfraddau diagnosis ac i ddarparu gwasanaeth adsefydlu gwybyddol i bobl gyda dementia cyfnod cynnar. Mae therapi galwedigaethol yn cael ei ddarparu ar draws y Rhondda, Cwm Cynon, Cwm Taf a Merthyr Tudful er mwyn sicrhau gwasanaeth systematig sydd ar gael i bawb yr un mor hwylus.

Datblygwyd y gwasanaeth ar y cyd â phobl sy'n byw gyda dementia, eu teuluoedd a grwpiau o ofalwyr, a hynny'n seiliedig ar ymchwil a wnaed yn y Bwrdd Iechyd. Mae tystiolaeth gyfredol wedi nodi bod triniaeth gan therapi galwedigaethol yn galluogi pobl sy'n byw gyda dementia i gadw ac adennill eu hannibyniaeth am gyfnodau estynedig. Gwneir hyn drwy ddefnyddio tasgau a rolau sy'n bwysig i'r unigolyn. Mae'r staff a'r bobl sy'n defnyddio'r gwasanaeth wedi cael cyfle i gyfarfod â'r Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol a'r Comisiynydd Pobl Hŷn i drafod a rhannu manteision y gwasanaeth.



“

Mae cael therapi galwedigaethol fel rhan o MAS wedi ychwanegu gwerth at ein gwasanaeth ac mae sefydlu pa sgiliau ac anawsterau sy'n digwydd trwy weld y claf gartref yn rhoi persbectif clinigol ychwanegol

”

“

Roeddwn yn falch o'r profiad gydag TG, fe wnaethant helpu i'm tywys gyda phethau

”

“

Rwy'n teimlo'n hyderus yn y ffordd y gallaf gefnogi mam, mae ein perthynas yn llai toreithiog a gallaf weld cymaint y gall ei wneud iddi hi ei hun am y tro cyntaf ers amser maith.

”

“

Roedd angen popeth rydych chi wedi'i wneud, fel angel gwarcheidiol

”

“

Yn bendant mae wedi helpu i ailadeiladu fy hyder

”



Partneriaeth y Groes Goch

Ar 16 Rhagfyr 2019, roedd yn braf lansio ein partneriaeth â'r Groes Goch Brydeinig sy'n gweithredu o Adran Ddamweiniau ac Achosion Brys Ysbyty'r Tywysog Siarl, ac mae hi wedi dechrau'n ardderchog!

Mae gwirfoddolwyr y Groes Goch yn enwog am helpu pobl ledled y byd yn ystod argyfwng, megis newyn neu drychinebau naturiol, ac mae'r gwaith wedi ei gomisiynu gan Lywodraeth Cymru a'r Gyd-uned Comisiynu Cydweithredol. Erbyn hyn, mae gweithwyr y Groes Goch yn defnyddio eu harbenigedd i gynnig cymorth i gleifion a theuluoedd, gan flaenoriaethu eu hanghenion bugeiliol wrth i'n staff fynd i'r afael ag anghenion clinigol. Gall hyn gynnwys eistedd gyda chleifion, eu cadw'n gynnes, sicrhau eu bod yn yfed digon o ddŵr a darparu cymorth emosiynol mawr ei angen iddynt. Maent hefyd yn helpu i ryddhau cleifion yn ddiogel ac yn gallu sicrhau eu bod yn cyrraedd gartref yn ddiogel, sicrhau bod bwyd a gwres ar gael a helpu gydag unrhyw drefniadau gofal. Mae'r Groes Goch ar gael rhwng 10am a 10pm saith diwrnod yr wythnos. Meddai Claire Cooper, Rheolwr Gwasanaeth y Groes Goch, "Mae ein gwirfoddolwyr gerllaw i gynnig sicrwydd a chymorth... yn bwysicaf oll, rydyn ni'n treulio amser gyda phobl, yn gwrando ar eu pryderon, yn canfod problemau ac yn eu helpu nhw i gael y cymorth priodol."

Safonau'r Gymraeg

Mae'r Bwrdd Iechyd wedi gwneud cynnydd da o ran gwreiddio Safonau'r Gymraeg yn ein gwasanaethau. Rydym yn monitro'r gydymffurfiaeth â'r safonau drwy archwilio wardiau'n rheolaidd ac mae Pencampwr y Gymraeg wedi eu neilltuo ar bob ward. Mae'r holl staff newydd yn parhau i gael hyfforddiant ymwybyddiaeth o'r Gymraeg yn ystod y broses ymsefydlu i staff newydd, sy'n cynnwys gwybodaeth am Gynnig Rhagweithiol Mwy na Geiriau Llywodraeth Cymru.

Mae gwersi Cymraeg i'r staff yn hynod boblogaidd ac rydym wedi eu hystyngi i gynnwys ardal Pen-y-bont ar Ogwr.

Mae Adran y Gymraeg wedi cyflogi dau gyfieithydd arall i sicrhau bod y Bwrdd Iechyd yn cydymffurfio â Safonau'r Gymraeg. Mae'r tîm o dri yn gweithio'n ddiflino i sicrhau bod taflenni i gleifion, arwyddion a phosteri yn ddwyieithog ac maent wedi gwneud cynnydd da o ran llythyrau apwyntiadau i gleifion.





GOFAL AMSEROL DARPARU GOFAL A GWASANAETHAU AMSEROL

Rydym yn gwerthfawrogi'r angen i bobl gael mynediad amserol i wasanaethau yn seiliedig ar eu hanghenion clinigol. Gall peidio â derbyn gofal amserol gael effaith enfawr ar brofiad unigolion o wasanaethau iechyd a'u gallu i gyflawni'r canlyniadau iechyd gorau. Rydym yn gweithio'n galed i ddatblygu ein gwasanaethau i sicrhau bod gennych fynediad hawdd ac amserol i wasanaethau i alluogi'r canlyniadau gorau posibl i'ch iechyd.

Gwasanaethau priodol ar yr adeg briodol

Agor canolfan newydd 'Y Bwthyn' – Mae Uned Gofal Lliniarol Arbenigol NGS Macmillan y Bwthyn, yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yn gyfleuster iechyd o'r radd flaenaf i'n cleifion.

Agorodd ein huned gofal lliniarol modern ei drysau ym mis Medi 2019 yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg. Mae'n cynnig awyrgylch cynnes a chroesawgar i'r rheiny y mae angen gofal lliniarol arbenigol arnynt.

Mae Uned Gofal Lliniarol Arbenigol NGS Macmillan y Bwthyn yn werth £7.25 miliwn a'i bwriad yw cynnig gofal lliniarol i gleifion mewnol, cleifion allanol a chleifion gofal lliniarol dydd i bobl o ardal y Rhondda a Thaf-Elái ym Mwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r uned wyth gwely wedi cael ei hariannu drwy bartneriaeth rhwng Cefnogaeth Canser Macmillan, National Garden Scheme, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg a Llywodraeth Cymru.

Mae'r uned wedi'i dylunio gan bensaer sy'n arbenigo mewn creu adeiladau gofal lliniarol, a chaiff gwaith celf sydd wedi'i ysbrydoli gan yr awyr agored ei arddangos yno. Mae hyn wedi i gleifion a'r bobl agosaf iddyn nhw ddweud wrthym eu bod yn dymuno gweld thema leddfol yn yr uned. Ym mhob ystafell mae drws sy'n arwain i'r awyr agored er mwyn galluogi cleifion i fynd â'u gwllâu allan i deras cuddiedig os ydyn nhw'n dymuno.

Mae Macmillan wedi creu sawl fideo i ddangos datblygiad yr uned ac mae'r prosiect gorffenedig i'w weld ar dudalen Facebook Macmillan.

<https://www.facebook.com/watch/macmillan.cymruwales/342357079715035/>

Am fwy o wybodaeth, cymorth neu sgwrs syml, ffoniwch Macmillan yn rhad ac am ddim ar **0808 808 0000**. Er mwyn helpu Macmillan i barhau i noddi gwasanaethau arbennig fel hwn, gwnewch ryw beth heddiw a ffoniwch **0300 1000 200**.

Ein Gwasanaeth Strôc 7 diwrnod yr wythnos

Daeth treial therapi saith diwrnod yr wythnos i ben ym mis Rhagfyr 2018 ar ôl 4 mis. Roedd yn cynnwys gosod nodau gyda chleifion a pherthnasau er mwyn gwella rheolaeth a chyfranogiad teuluoedd/cleifion a hybu hunan-reolaeth a chynlluniau therapi.

Mae'r prosiect hwn yn gwella ansawdd y gofal i gleifion drwy ei gwneud yn bosibl cynnal triniaeth ar ddydd Sadwrn ac ar ddydd Sul, lle gall teuluoedd ddod i'r ysbyty a bod yn rhan o'r broses gwella.

Mae'r Tîm Rhyddhau Cynnar â Chymorth wedi cael effaith gadarnhaol ar y Gwasanaeth Strôc a hyd arhosiad cleifion. Fodd bynnag, caiff hyn ei gyllido drwy gynllun cyllido ysbeidiol. Nodwyd hyn fel risg yn y Cynllun Therapiau.

Dod i Adnabod Eich Tîm Lleol

Rydym am weithio'n galed ar wella gwybodaeth ein poblogaeth am iechyd a chredwn fod angen gwneud llawer o'r gwaith hwn drwy ddefnyddio pob dull o gyfathrebu i gysylltu â'n poblogaeth yn rheolaidd. Rydym yn manteisio i'r eithaf ar y Fforwm Cyhoeddus sydd wedi ei sefydlu ers tro ac rydym yn gweithio'n agos gyda Thîm Cyfathrebu'r Bwrdd Iechyd ac yn cael cymorth ganddo er mwyn datblygu elfennau allweddol o'r gwaith hwn, megis datblygu'r ymgyrch 'Dod i Adnabod Eich Tîm Lleol'. Mae'r ymgyrch Eich Tîm Lleol yn tynnu sylw at y nifer o wasanaethau gofal iechyd sydd ar gael yn y gymuned leol.

Mae'n bosibl mai'r feddygfa fydd y gwasanaeth cyntaf y bydd y mwyafrif o gleifion yn ei alw pan fyddan nhw'n dost neu pan fyddan nhw'n cael anaf, ond neges y Bwrdd Iechyd yw bod gwasanaethau mwy addas ar gael mewn rhai achosion.





GOFAL UNIGOL DARPARU GWASANAETHAU YN SEILIEDIG AR ANGHENION UNIGOL A CHYNNAL ANNIBYNIAETH

Rydym wedi ymrwymo i sicrhau bod pobl yn cael eu trin fel unigolion, gan adlewyrchu eu hanghenion a'u cyfrifoldebau eu hunain. Trwy wrando a dysgu o'ch profiadau rydym yn ymdrechu i ddylunio a datblygu gwasanaethau sy'n lleihau anghydraddoldebau, yn cefnogi gofalwyr yn ogystal â gwella gwasanaethau i grwpiau bregus

Gyda chymorth ariannol gan Lywodraeth Cymru, mae'r ymgyrch yn cynnwys gweithwyr proffesiynol lleol yn y maes gofal sylfaenol sy'n gyfarwydd i gleifion ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg.

Roedd ymgyrch 2020 yn cynnwys hysbysebion mewn adeiladau ac yn yr awyr agored, yn ogystal â phosteri a baneri, pyst ar y cyfryngau cymdeithasol ac erthyglau mewn cylchgronau cymunedol.

Cymorth i'n Gofalwyr

Y llynedd, ymrwymom i barhau i gynnig Hyfforddiant Cymorth i Ofalwyr, AGORED, ar draws Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg. Mae'r hyfforddiant hwn yn ein galluogi i ganfod gofalwyr cyn gynted â phosibl a chynnig cymorth a chynghor iddynt, a'u cyfeirio at sefydliadau yn y trydydd sector. Eleni, mae'n braf gennym rannu ein cynnydd â chi.

Ar draws Cwm Taf Morgannwg, rydym wedi cysylltu â chyfanswm o 80 o feddygon teulu. Cafodd pob un ohonynt lythyr yn eu gwahodd i enwebu Pencampwr Gofalwyr ac yn rhoi cyfle iddynt gymryd rhan yn hyfforddiant AGORED. I ddechrau, cawsom gais am fwy o wybodaeth gan 18 o bobl. O blith y rheiny, cofrestrodd deg meddygfa eu haelodau o staff ar yr hyfforddiant a chofrestrwyd cyfanswm o 13 o aelodau o staff (cofrestrodd rhai meddygfeydd ddau aelod o staff). Hyd yn hyn, rydym wedi rhoi tystysgrif i wyth dysgwr ac mae'r gweddill yn parhau â'r hyfforddiant. Yn ogystal â hynny, rydym wedi cyflwyno'r hyfforddiant i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, fferyllfeydd a deintyddfeydd.

Mae'r adborth gan y dysgwyr yn awgrymu bod yr hyfforddiant wedi rhoi hyder iddynt ddechrau sgwrs â gofalwyr i drafod beth sy'n bwysig a'u bod yn fwy hyderus yn adnabod y rhai sy'n ofalwyr. Yn bennaf oherwydd y cwrs hyfforddi, maent yn gallu cyfeirio gofalwyr at gymorth a chynghor ychwanegol. Mantais yr hyfforddiant hwn yw bod gofalwyr yn gallu cael cymorth a chynghor cyn eu bod mewn argyfwng neu cyn i'r gofalwyr eu hunain orfod cael eu derbyn i'r ysbyty.

Bydd pob meddygfa sydd wedi cofrestru i gymryd rhan yn hyfforddiant AGORED yn cael Hysbysfwrdd Gofalwyr sy'n cael ei ddiweddarau bob mis gan y Pencampwr Gofalwyr. Yn ogystal â hynny, mae poster y Pencampwr Gofalwyr yn dangos i gleifion pwy yw eu Pencampwr Gofalwyr. Hefyd, bydd y Pencampwr Gofalwyr yn gwisgo bathodyn er mwyn i gleifion ei adnabod yn hawdd.

Enwebodd meddyg teulu ym Mharc Iechyd Prifysgol Keir Hardie ei dderbynnydd, Judith Cullen, sydd wedi cymryd rhan yn hyfforddiant AGORED ac sy'n Pencampwr Gofalwyr, ar gyfer Gwobr Staff Cynorthwyol y Flwyddyn yng Ngwobrau Cenedlaethol The South Wales Argus. Enillodd Judith y wobr ar sail cyfraniad mawr ei gwaith yn ei rôl fel Pencampwr Gofalwyr.

Dolen i'r llwyddiant mawr hwn: <https://newsquestevents.co.uk/swa-health-care-awards/>

Mae Cwm Taf Morgannwg yn parhau i ddatblygu ar lwyddiant cynorthwyo gofalwyr di-dâl. Eleni, rydym wedi hyfforddi 18 o feddygfeydd ar sut i adnabod gofalwyr di-dal a rhoi cymorth iddynt yn eu cymuned ac rydym yn cynnig hyfforddiant hefyd i Weithwyr Cymorth Gofal Iechyd, fferyllfeydd a deintyddfeydd.

Rydym wedi gweithio gyda sefydliadau yn y trydydd sector i wella'r cymorth a'r gwasanaethau y maent yn eu darparu i ofalwyr ac rydym wrthi'n sefydlu gwasanaeth rhyddhau o'r ysbyty yn ein hysbytai cyffredinol. Bydd hyn yn rhoi cyfle i ofalwyr leisio eu pryderon am ryddhau'r unigolyn y maent yn gofalu amdano yn gynnar. Nod y prosiect yw rhoi cymorth i ofalwyr a'u cyfeirio at sefydliadau sy'n gallu helpu i ryddhau cleifion yn ddidrafferth ac mewn modd amserol.

Rydym yn parhau i hyrwyddo rôl gofalwyr mewn digwyddiadau corfforaethol a diwrnodau hyfforddi. Yn ddiweddar, cynhaliom sesiwn wybodaeth ar y cyd â sefydliadau yn y trydydd sector a chynrychiolwyr o'r awdurdod lleol. Gyda'n gilydd, llwyddom i ateb ymholiadau ynglŷn â'r amrywiaeth eang o wasanaethau rydym yn eu cynnig.

Gan gydweithio â sefydliadau gofalwyr ifanc, rydym yn cynnal dosbarth coginio dros ddeg wythnos. Mae'r cwrs yn ymdrin â hylendid bwyd a choginio iach ar gyllideb fach. Wythnos ar ôl wythnos, mae'r gofalwyr ifanc wedi magu hyder ac wedi coginio llawer o brydau blasus. Amcangyfrifir bod gofalwyr ifanc yn colli 48 o ddiwrnodau ysgol ar gyfartaledd oherwydd eu rôl gofalu, felly mae'n bwysig ein bod yn parhau i nodi sgiliau a fydd yn meithrin eu hyder ac yn gwella eu lles.

Yn ogystal â hynny, rydym yn cydnabod bod rhai o'n staff o bosibl yn ofalwyr. Rydym yn cynnal digwyddiadau gwybodaeth yn rheolaidd ac yn diweddarau tudalennau'r Bwrdd Iechyd ar y cyfryngau cymdeithasol er mwyn rhoi gwybodaeth berthnasol ac amserol i'r staff sy'n ofalwyr.

Gwranddo ar Adborth a Dysgu Oddi Wrtho

Fel Bwrdd Iechyd, rydym wedi ymrwymo i wrando ar y bobl sy'n defnyddio ein gwasanaethau a datrys eu problemau, pan fydd hynny'n bosibl, mewn modd cymesur ac empathig. Rydym yn ceisio darparu proses effeithiol ac amserol ar gyfer ymateb i bryderon sy'n galluogi'r Bwrdd Iechyd i wella ei wasanaethau ar sail gwersi a ddysgwyd. Y nod yw sicrhau gofal effeithiol a thosturiol o ansawdd uchel i holl ddefnyddwyr ein gwasanaethau.

Nid yw'r tri maes uchaf o ran nifer y cwynion wedi newid ers y llynedd. Y rhain yw Meddygaeth, Damweiniau ac Achosion Brys, Llawfeddygaeth Gyffredinol a Thrawma ac Orthopaedeg.



Y tair cwyn fwyaf cyffredin:

1. Camgymeriadau yn ystod triniaeth
2. Cyfathrebu
3. Oedi/Problemau wrth dderbyn, trosglwyddo neu ryddhau cleifion

Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i ddatrys problemau mewn modd sy'n foddhaol i gleifion neu i'w teuluoedd. Fodd bynnag, os byddant yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb gan y Bwrdd Iechyd, cânt gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a fydd yn ystyried p'un a ddylid ymchwilio ymhellach ai peidio.

Cwynion parthed Gofal Sylfaenol: Mae Contractwyr Gofal Sylfaenol, gan gynnwys Meddygon Teulu, Deintyddion, Optegwyr a Fferyllwyr Cymunedol, yn annibynnol ar y Bwrdd Iechyd ac yn gyfrifol am reoli eu cwynion eu hunain ynglŷn â'r gwasanaethau y maent yn eu darparu. Caiff y mwyafrif o'r cwynion eu datrys gan bractisiau, ond pan fydd y gŵyn yn cael ei gwneud drwy'r Bwrdd Iechyd, mae'n bosibl ystyried eu cyfraniad os yw'n briodol. Cafodd y Bwrdd Iechyd 26 o gwynion am Gontractwyr Gofal

Sylfaenol yn ystod y cyfnod. Thema gyffredin y cwynion am ofal sylfaenol yw camgymeriadau yn ystod triniaeth, sy'n ymwneud yn bennaf â phrofiad y claf o oedi wrth ei gyfeirio at ofal eilaidd.

(Mae'r data'n rhychwantu'r cyfnod rhwng mis Ebrill 2019 a mis Mawrth 2020)

Cyfeiriadau at Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru: Mae'r Bwrdd Iechyd yn gwneud pob ymdrech i ddatrys problemau mewn modd sy'n foddhaol i gleifion neu i'w teuluoedd. Fodd bynnag, os byddant yn parhau i fod yn anfodlon ar ôl cael ymateb gan y Bwrdd Iechyd, cânt gysylltu ag Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru, a fydd yn ystyried p'un a ddylid ymchwilio ymhellach ai peidio. Yn ystod y flwyddyn, cafodd 80 o achosion eu cyfeirio at yr Ombwdsmon (75 yn ystod 2018/19). O blith y rhain, ymchwiliwyd ymhellach i 22, sef **lleihad** ers 2017/18 (32).



Mae aelodau o staff y Bwrdd Iechyd wedi dechrau siarad â chleifion mewnol wrth iddynt gael triniaeth, yn unol â'r Rhwydwaith Profiad Cleifion ac Ymddiriedolaeth GIG Northumbria. Yn ystod 2019-2020, atebodd **2,696 o gleifion** ar draws y tri ysbyty aciwt ein harolwg. Cafodd pob safle **sgôr gyfartalog uwch na 9.5 allan o sgôr bosibl o 10**. Hefyd, yn ystod y cyfnod hwn, cafodd y Tîm PALS **1,815 o ganmoliaethau**.

"Does gen i ddim byd ond canmoliaeth i bawb sy'n gweithio yn Ward 3 yn Ysbyty'r Tywysog Siarl ac yn yr Adran Theatrau ac Adfer. Rydw i'n gwerthfawrogi gwaith anhygoel pob un ohonoch chi'n fawr. Ces i fy nhrin â pharch a chyfeillgarwch drwy'r adeg. Diolch."

"Hoffwn i ddiolch i holl staff yr ysbyty, yn enwedig y Tîm Nyrsio ar Ward 5 ac i bob un aelod o staff yn y theatr a'r ymgynghorwyr sydd wedi rhoi gofal rhagorol i mi drwy gydol fy llawdriniaeth ac wrth i mi wella ar ôl hynny. Mae cynifer o aelodau o staff y tu ôl i'r llenni dydy cleifion byth yn eu gweld. Hoffwn i ganmol staff y golchdy yn arbennig. Ar ôl cael profiad o'r golchdy yn Ysbyty Athrofaol Cymru, rydw i'n rhyfeddu at y ffordd mae'r holl lieiniau a gobenyddion ac ati yn hynod o lân. All eich tîm ddysgu Ysbyty Athrofaol Cymru yn enwedig sut i ddarparu gwasanaeth o fri? Ysbyty Brenhinol Morgannwg fydd fy newis cyntaf os bydd angen gwasanaeth ysbyty rhagorol y GIG arna i."

- Mae'r Tîm Mamolaeth yn ffantastig, yn wych ac yn anhygoel. Rydw i mor ddiolchgar i'r holl staff.
- Allwn i ddim gofyn am ofal gwell ar yr Uned Mamolaeth.
- Roedd y bydwagedd a'r cynorthwywyr gofal iechyd yn wych. Dydy Cynorthwywyr Gofal Iechyd ddim yn cael digon o glod.
- Mae pawb wedi bod yn wirioneddol hyfryd ar yr Uned Mamolaeth.
- Mae'r bydwagedd yn hynod gefnogol.
- Roedd popeth yn berffaith.
- Mae'r staff mamolaeth bob amser yn cadw llygad ar y mamau a'r babanod yn ystod y nos.
- Mae'r staff wedi bod yn wych ac wedi cyfathrebu'n glir yn ystod fy arhosiad.

Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach – gweithio mewn partneriaeth â Gofal a Thrwsio Cwm Taf

Care & Repair

Hospital to a Healthier Home

We work directly with hospital teams and patients to identify and resolve housing problems that may lead to a delayed discharge when the patient is medically fit to be discharged.

We access direct funding to pay for things to be done quickly, where this will mean a patient can be safely and more quickly discharged.

There are many other housing problems the service can solve, and free up clinical staff's time in troubleshooting, identifying who can help, and problem solving.

To ensure a patient can live independently and safely at home, and to prevent re-admissions, all patients returning home are offered a routine a Care & Repair Healthy Home Assessment.

What sort of things does the service cover?

Examples of the things that the service covers, that can speed up safe discharges are:

- quick home adaptations such as handrails, grab rails and small ramps;
- moving beds from upstairs to downstairs;
- carrying out essential small repairs that makes a patient's home safe to return to; for example, repairs to electrics
- providing key safes;
- preventing falls by making properties safer; or
- making the home warm by improving heating and insulation.

To find out more or make a referral, please contact:

Jemma Lewis
Prince Charles Hospital
Merthyr Tydfil
jlewis@cwmtafcr.org.uk
07527 871510

Cwm Taf Care & Repair
enquiries@cwmtafcr.org.uk
01443 755696

Chief Officer: Nerys Williams

Drwy gydweithio â Gofal a Thrwsio Cwm Taf, mae gan Ysbyty Brenhinol Morgannwg ac Ysbyty'r Tywysog Siarl Weithwyr Achos 'Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach'. Eu rôl yw gweithio â'r timau a'r cleifion yn yr ysbytai i canfod a datrys problemau sy'n ymwneud â thai a allai arwain at oedi wrth ryddhau cleifion, er bod y claf yn ddigon iach i fynd adref. Mae'r Gweithwyr Achos yn gallu cael cyllid uniongyrchol i wneud pethau yn gyflymach a bydd hyn yn golygu y bydd modd rhyddhau claf yn ddiogel ac yn gyflymach.

Mae sicrhau y gall Gweithwyr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach gael sgysiau â chleifion cyn gynted â phosibl yn fodd o ganfod problemau o ran tai ac o ddod o hyd i ddatrysiadau yn gyflymach. Yn y gorffennol, mae'r sgysiau wedi digwydd yn rhy hwyr, neu hyd yn oed ar adeg pan fydd modd rhyddhau claf yn feddygol ddiogel. Mae hyn wedi arwain at oedi wrth ryddhau cleifion a llif cleifion gwael.

Nid diwedd y daith yw rhyddhau claf. Yn aml, bydd angen mynd i'r afael â phroblemau ehangach sy'n ymwneud â thai er mwyn sicrhau bod claf yn gallu byw yn annibynnol ac yn ddiogel yn ei gartref a'i atal rhag gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty. Elfen hollbwysig o'r gwasanaeth hwn yw'r berthynas tymor hwy rhwng y Gweithiwr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach, tîm ehangach Gofal a Thrwsio a'r claf, er mwyn datrys problemau mwy

sy'n ymwneud â thai. Gall y rhain gynnwys yr angen am addasiadau mawr, gwaith trwsio sylweddol er mwyn sicrhau bod cartref y claf yn addas i fyw ynddo neu fynd i'r afael â chartrefi oer a thlodi tanwydd. Yn aml, mae'r cyfryw broblemau yn arwain at salwch anadlol, problemau cylchredol a gorfod mynd yn ôl i'r ysbyty os na fydd y rhain yn cael eu trin. Mae'r cynllun ar ei fwyaf effeithiol pan fydd pob claf sy'n dychwelyd adref yn cael cynnig "Asesiad Cartref Iach" cyffredinol gan Gofal a Thrwsio.

Gall gwasanaethau cymorth eraill a gwasanaethau eraill yn y trydydd sector fod yn ffynhonnell hollbwysig o atgyfeiriadau at Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach a'r ffordd arall. Pan fydd gwasanaethau, megis y rheiny sy'n cael eu cynnig gan y Groes Goch Brydeinig, Age Connects Morgannwg, Age Cymru, y Gwasanaeth Gwirfoddol Brenhinol ac eraill, yn rhoi cymorth i gleifion megis trafndiaeth i fynd adref a chymorth i ymgartrefu, dylai Gweithwyr Achos Adre o'r Ysbyty i Gartref Iachach draws gyfeirio a chydweithio er mwyn rhoi'r cymorth gorau posibl i bob claf.

Cydraddoldeb ac Amrywiaeth

Mae'r Tîm Cydraddoldeb wedi datblygu a chyhoeddi Cynllun Cydraddoldeb Strategol newydd ar gyfer 2020-24. Bydd hwn yn nodi blaenoriaethau'r Bwrdd Iechyd yn y maes Cydraddoldeb dros y pedair blynedd nesaf. Yn rhan o hyn, cynhalïom ymgynghoriad cyhoeddus, cynhwysfawr â rhanddeiliaid a phartneriaid yn y sector cyhoeddus ac yn y trydydd sector, yn ogystal â grwpiau cleifion.

Fel mewn blynyddoedd blaenorol, rydym wedi dangos ein hymrwymiad di-ball i'n staff LHDT. Rydym wedi parhau i gefnogi Rhwydwaith y Staff LHDT a arweiniodd at gael ein henwebu am un o wobrau gwerthfawr Gwobrau GIG Cymru. Mewn partneriaeth â staff Clinig Angelton yn Ysbyty Glanrhyd, cynhalïom ddigwyddiad 'Ageing with Pride', a chanolbwyntiodd y siaradwyr gwadd ar brofiadau a phroblemau LHDT mewn perthynas â phobl hŷn. Yn ogystal â hynny, cynhalïom sesiynau ymwybyddiaeth Traws* i'r staff a datblygom bolisi ar gyfer cleifion trawsryweddol er mwyn sicrhau bod cleifion trawsryweddol yn cael y profiad gorau posibl. Rydym hefyd yn datblygu pecyn adnoddau i'r staff wedi ei greu o amrywiaeth o ffynonellau allanol a mewnol er mwyn darparu 'siop un stop' am wybodaeth.

Gwasanaeth Trawsryweddol

Cafodd Gwasanaeth Trawsryweddol newydd ei gyflwyno yng Nghymru ym mis Medi 2019. Pan fydd meddyg teulu yn amau y gallai claf fod â symptomau o ddysfforia rhywedd, byddant yn dilyn y llwybr fel y'i disgrifir isod.

Tîm Rhywedd Cymru – gan BIP Caerdydd a'r Fro yn Ysbyty Dewi Sant, Caerdydd

Bydd y claf yn cael ei atgyfeirio yn uniongyrchol at Dîm Rhywedd Cymru. Rolau Tîm Rhywedd Cymru:

- Sgrinio – bydd achosion cymhleth a phlant yn cael eu cyfeirio yn uniongyrchol at Glinig Hunaniaeth Rywedd Charing Cross.
- Asesu – diagnosis a gwerthuso llawfeddygol, gwerthuso endocrinaidd a gwerthuso seicolegol
- Rhyddhau – rhyddhau i'r Tîm Rhywedd Lleol i gael therapi hormonau, therapi iaith a lleferydd ac atgyfeiriad at wasanaeth cwnsela/seicoleg



Tîm Rhywedd Lleol – gan Bractis Taff Vale ym Mharc Iechyd Dewi Sant

Bydd y claf yn cael ei ryddhau o Dîm Rhywedd Cymru. Rolau'r Tîm Rhywedd Lleol:


- Cychwyn a defnyddio triniaethau hormonau i gleifion sydd wedi eu rhyddhau o Dîm Rhywedd Cymru.
- Bydd pob claf yn parhau gyda'r Tîm Rhywedd Lleol fel arfer am ryw 9 i 18 o fisoedd.

Gwasanaeth Ychwanegol dan Gyfarwyddyd

Bydd y claf yn cael ei ryddhau i feddyg teulu yn ei ardal. Rôl y meddyg teulu:

- Darparu triniaethau hormonau gydol oes.

Pan na fydd practisiau wedi cofrestru i gymryd rhan yn y Gwasanaeth Ychwanegol, mae rhwydwaith yn bodoli lle bydd meddyg teulu o bractis lleol yn rheoli cleifion ar ran y practis cofrestredig.




Nam ar y synhwyrâu

Rydym hefyd wedi parhau â'n gwaith ar nam ar y synhwyrâu ac arweiniodd ein gwaith ar Bolisi Adeiladau Hygyrch newydd at Wobr Rhagoriaeth mewn Gofal Iechyd gan Action on Hearing Loss am yr eildro. Eleni, mae ein gwaith wedi canolbwyntio ar alluogi cleifion gyda nam ar y synhwyrâu i ddefnyddio gwasanaethau iechyd meddwl ac ar greu pecyn cymorth iechyd meddwl, yn ogystal â chyflwyno offer a hyfforddiant nam ar y synhwyrâu yn yr ardal er mwyn sicrhau bod pob claf yn gallu defnyddio gwasanaethau yr un mor hwylus. Rydym hefyd wedi creu cyfres o ganllawiau sy'n ymdrin â gwybodaeth hygyrch, trefnu digwyddiadau hygyrch ac addasiadau rhesymol.

Rydym wedi sefydlu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd ar-lein ac wedi hyrwyddo'r defnydd ohono ym mhob rhan o'r Bwrdd Iechyd. Erbyn hyn, mae cleifion yn gallu cael gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn Iaith Arwyddion Prydain ac ym mhob iaith dramor. Mae hyn yn sicrhau cyfathrebu cywir a bod modd i bawb ddefnyddio gwasanaethau yr un mor hwylus. Mae'n arbed swm sylweddol o arian hefyd.

Yn ystod y flwyddyn nesaf, rydym yn gobeithio ehangu ein gwaith mewn perthynas â'n staff du, Asiaidd a lleiafrifoedd ethnig (BAME) a'n staff anabl, yn ogystal â pharhau â'n gwaith ar y meysydd uchod.



EIN STAFF DATBLYGU STAFF

HYFFORDDedig O SAFON SY'N

YMWNEUD YN LLAWN Â DARPARU GOFAL A
CHEFNOGAETH RAGOROL I CHI A'CH TEULU

Rydym yn gwerthfawrogi
ac yn parchu ein staff
ac yn dymuno gwneud
popeth o fewn ein gallu
i gael gweithluoedd
llawn cymhelliant hapus
sy'n cael eu cefnogi
a'u datblygu ar bob
cam o'u gyrfa gyda ni.

Mae Dr Les Ala, sy'n feddyg aciwt yn Ysbyty Brenhinol Morgannwg, yn arwain gwaith anhygoel lle mae'r Bwrdd Iechyd yn ffurfio partneriaeth arbennig rhwng y meddygon yma a meddygon yn ynysoedd de'r Cefnfor Tawel. Nod y bartneriaeth yw cyllido cyflenwadau meddygol ac anfon gweithwyr iechyd proffesiynol at gymunedau'r ynysoedd i addysgu sgiliau newydd.

Bydd y bartneriaeth newydd hon yn codi arian a rhannu arfer gorau â gweithwyr iechyd proffesiynol yn Fanwatw, sydd yn aml yn gweithio gydag offer sylfaenol mewn cyfleusterau sylfaenol.

Mae Dr Ala, sy'n wreiddiol o Fanwatw, yn dychwelyd i'w famwlad mor aml â phosibl, gan fynd â chyflenwadau a roddwyd gan Gwm Taf Morgannwg, cynnal sesiynau hyfforddi ac ymweld â'i deulu.

Yn ystod ei ymweliad diweddaraf ddiwedd 2019, aeth Dr Ala â dau ddiffibriliwr a gafodd eu rhoddi, un i bob un o'r prif ysbytai yn Santo ac yn y brifddinas, Port Vila. Cyn hynny, roedd y Bwrdd Iechyd wedi cyflenwi 10 bocs o ganwlâu mewnwythiennol. Da iawn i bawb a oedd yn rhan o'r gwaith!



Rydym yn falch hefyd o gyhoeddi mai BIP Cwm Taf Morgannwg yw'r Bwrdd Iechyd cyntaf yng Nghymru i benodi **Gwirfoddolwr Cymorth i Deuluoedd Rhoddwyr**. Dechreuodd Odette Ward o Aberdâr yn ei rôl fel Gwirfoddolwr Cymorth i Deuluoedd Rhoddwyr ym mis Ionawr a bydd yn rhoi cymorth ac arweiniad i deuluoedd. Bydd yn darparu cymorth emosiynol i deuluoedd rhoddwyr yn ystod y broses rhoddi a bydd yn gweithio'n agos gyda'r gwasanaeth caplaniaeth ac yn cael hyfforddiant i ddarparu gofal ysbrydol i deuluoedd rhoddwyr os byddant yn dymuno. Diolch Odette, bydd eich gwaith yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan deuluoedd.



Dewch i ni draffod diwylliant – creu diwylliant sefydliadol rydym yn falch ohono

Beth yw hwn?

Wrth i ni ddod ynghyd i ffurfio ein sefydliad newydd, sef BIP Cwm Taf Morgannwg, dyma gyfle i ni greu ein diwylliant a sicrhau bod Cwm Taf Morgannwg yn lle gwych i weithio ac i gael gofal. I wneud hyn, rhaid i ni ddatblygu'r gwerthoedd a'r ymddygiadau y mae pawb yn eu rhannu ac rydym am i bawb fod yn rhan o'r sgwrs bwysig hon.

Beth ydyn ni'n ei wneud?

Prosiect mawr yw hwn sy'n cynnwys cynifer o aelodau o staff a chleifion â phosibl yn rhannu eu barn am y ffordd y dylem ni ddatblygu ein sefydliad newydd. Rydyn ni am i bawb deimlo ei fod yn cael ei werthfawrogi a'i gefnogi, ac i deimlo'n frwdfrydig yn y gwaith.

Rydyn ni am i'n cleifion gael profiad gwych yn ein gofal hefyd. Yn ôl astudiaethau, pan fydd gweithwyr a thimau gofal iechyd proffesiynol yn cael profiadau da yn y gwaith, yn cymryd diddordeb yn eu gwaith ac yn gweithio'n dda mewn tîm, bydd

profiad y cleifion, diogelwch ac ansawdd hefyd yn gwella yn sgil hynny. Mae 'sut' rydyn ni'n gweithio yr un mor bwysig â 'beth' rydyn ni'n ei wneud.

Sut ydyn ni wedi cyflawni hyn?

Mae miloedd o bobl wedi cyfrannu at y prosiect hwn, a hynny wyneb yn wyneb a thrwy ein harolwg. Mae 4,000 a mwy o bobl wedi cwblhau ein harolwg ac mae ychydig yn llai na 400 o bobl wedi cymryd rhan mewn gweithdai gwranddo i ddweud beth sy'n bwysig iddynt. Yn ogystal â hynny, cysylltom â 200 a mwy o gleifion drwy arolwg a gweithdai gwranddo i gael gwybod beth mae'n bwysig i ni ei wneud yn eu barn nhw.

Cafodd yr holl wybodaeth ei dadansoddi a'i chyflwyno mewn gweithdai ym mis Chwefror 2020. Cafodd y gweithdai eu dylunio er mwyn i ni gytuno fel sefydliad ar beth ddylai ein gwerthoedd sefydliadol a'n hymddygiadau cysylltiedig fod. I gyd-fynd â hyn, bu tri gweithdy cyd-greu yn ystyried recriwtio ar sail gwerthoedd, dileu bwlio a sut y gallwn roi ein gwerthoedd ar waith.

Yn ystod y cam nesaf, byddwn yn cynnal gweithdai pellach i ystyried sut y byddwn yn lansio ac yn arwain ein gwerthoedd.

Yn y bôn, nod 'Dewch i ni drafod diwylliant' yw:

- Cynnwys cynifer o staff a chleifion â phosibl. Rydyn ni am glywed am eich profiadau personol yn y gwaith neu yn ein gofal, a'ch barnau am sut allwn ni wella.
- Diffinio ein gwerthoedd, ac atgyfnerthu beth sy'n bwysig i ni yn ein gwaith ac wrth ofalu am gleifion. Rydyn ni am droi'r gwerthoedd hyn wedyn yn ymddygiad, fydd yn dangos sut rydyn ni am i ddiwylliant ein sefydliad edrych wrth siarad â chleifion ac â'n gilydd bob dydd.
- Ei gwneud yn haws gweld a chydabod arfer da, ac i godi llais hefyd am ymddygiad gwael. Mae'n rhaid i ni wreiddio ein gwerthoedd ym mhob peth a wnawn yn y dyfodol, boed hynny'n recriwtio ac arfarnu staff, gwneud penderfyniadau neu fesur ein perfformiad.
- Helpu i wneud ein sefydliad yn lle gwell i weithio, ac yn lle hyd yn oed yn well na hynny i dderbyn gofal.



Llongyfarchiadau i'n nyrsys practis

Rhianydd Davey ac Alice Lewis, a gyrhaeddodd restr fer Gwobrau Nyrs y Flwyddyn 2019 y Coleg Nyrsio Brenhinol!



Rydym mor, mor falch o Rhianydd Davey ac Alice Lewis, dwy o'n nyrsys practis gwych ym

Meddygfa Tŷ Newydd yn Nhrefherbert. Cafodd eu hangerdd am nyrsio practis yng Nghwm Taf Morgannwg ei gydnabod yng Ngwobrau Nyrs y Flwyddyn 2019 y Coleg Nyrsio Brenhinol, lle daethant o fewn trwch blewyn o ennill y **Wobr am Fentoriaeth**.

Yn 2017, daeth meddygfa Tŷ Newydd yn lleoliad addysgu achrededig i fyfyrwyr BA Nyrsio ym Mhrifysgol De Cymru.

Mae Rhianydd ac Alice wedi datblygu cynllun mentora o 'safon aur' i fyfyrwyr sydd wedi dewis Gofal Sylfaenol yn yrfa. Mae mentora yn elfen bwysig o'r 'rhaglen ymsefydlu myfyrwyr', sy'n canolbwyntio ar gyflwyno myfyrwyr i amrywiaeth lawn swydd y nyrs practis.

Wrth dderbyn cydnabyddiaeth gan y Coleg Nyrsio Brenhinol, dywedodd Rhianydd ac Alice:

"Trwy ein cynllun mentora, bydd ein myfyrwyr lleoliad yn cael profiad o amrywiaeth lawn rôl y nyrs practis mewn meddygfa. Mae'n annog ac yn cymell llawer ohonyn nhw i

fynd ar drywydd gyrfa ym maes nyrsio practis, ac mae llawer o'r myfyrwyr wedi llwyddo i gael swydd mewn meddygfa.

"Mae gwobr y RCN yn tynnu sylw at rôl werthfawr mentoriaeth ym maes ymarfer cyffredinol, ac at rôl bwysig gofal nyrsio sy'n canolbwyntio ar y teulu cyfan yn ein cymunedau. Mae cael cydnabyddiaeth am wneud rhywbeth rydyn ni'n ei garu yn rhagorol i'r ddau ohonon ni."


Dyma beth oedd gan rai o'r myfyrwyr sydd wedi bod ar y cynllun mentora yn Tŷ Newydd i'w ddweud:

"Roedd y lleoliad wedi fy siomi o'r ochr orau, doeddwn i ddim yn gwybod faint o wasanaethau gofal sylfaenol oedd ar gael. Rydw i'n teimlo bod dealltwriaeth well gyda fi erbyn hyn o beth sydd ar gael i gleifion. Rydw i'n teimlo fy mod i wedi ennill gwybodaeth drylwyr a sgiliau gwych y galla i eu rhoi ar waith trwy gydol fy ngyrfa".

"Roeddwn i'n dysgu'n barhaus. Roeddwn i wedi mwynhau fy chwe wythnos yn fawr. Roeddwn i'n teimlo'n rhan o'r tîm o'r diwrnod cyntaf un."

"Roedd pob aelod o'r staff yn barod iawn i helpu ac roedden nhw wedi fy helpu trwy gydol fy amser yno. Mae'r lleoliad wedi rhoi llawer o hyder i fi, a byddwn i'n ei argymhell i fyfyrwyr eraill."

Roedd y wobwr Mentoriaeth hon yn agored i Nyrs Gofrestredig neu Fydwraig Gofrestredig ragorol oedd wedi dangos dealltwriaeth ddofn o bwysigrwydd mentora da wrth ddarparu lleoliadau addysg o ansawdd, ac a oedd wedi bod yn fodel rôl i eraill.



Mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg (BIP CTM) yn parhau i weithio'n agos gyda'r Ganolfan Ryngwladol dros Gydlynu Iechyd (IHCC) i wreiddio'r 'Siarter Partneriaethau ar gyfer Iechyd Rhyngwladol yng Nghymru'.

Ac yntau'n gyfrifol am ddatblygu agweddau Datblygu Proffesiynol Parhaus ar iechyd rhyngwladol gan weithio ledled Cymru gyfan, mae'n braf gan BIP CTM weld bod Fforwm Prif Weithredwyr Cymru Gyfan wedi cymeradwyo'r pecyn cymorth Datblygu Proffesiynol Parhaus sydd wedi ei ddatblygu'n lleol. Erbyn hyn, mae'n ffurfio rhan o becyn cymorth cyffredinol y Ganolfan sydd ar gael i'w ddefnyddio'n ehangach.

Mae BIP CTM yn parhau i helpu'r Ganolfan Ryngwladol dros Gydlynu Iechyd i baratoi i lansio'r pecyn cymorth y ffurfiol, ac i gynllunio ar gyfer nodi 5 mlynedd ers cyflwyno'r Siarter.



EDRYCH YMLAEN 2020-2021

Edrych ymlaen at 2020/2021

Yn ogystal â'r meysydd i'w gwella yr ydym wedi sôn amdanynt drwy gydol y ddogfen hon, dyma ragor o bethau rydym wedi ymrwymo i'w gwneud er mwyn gwella ansawdd ein gofal yn 2020/21:

- Parhau i wella **ansawdd, diogelwch a phrofiad cleifion** drwy **strwythurau risg a llywodraethu effeithiol** gan gyflwyno fframwaith sicrwydd a **strwythur llywodraethu** newydd;
- Parhau i ddatblygu a chanolbwyntio ar **ymgysylltu â'n pobl a'u grymuso, sefydlu ein gwerthoedd a'n hymddygiadau**, a sicrhau strwythur a model gweithredu eglur;
- Datblygu **arweinyddiaeth glinigol a chymunedol**, dysgu drwy **welliannau ansawdd** ac **ennyn mwy o gyfranogiad** gan **gleifion, staff a phartneriaid** yn y gwaith o ailddylunio gwasanaethau;
- Parhau i weithredu'r **Rhaglen Wella Mamolaeth** y bydd y **Panel Trosolwg Annibynnol ar Famolaeth** yn craffu arno, er mwyn mynd i'r afael â'r problemau difrifol a godwyd;
- Mae'r sefydliad wedi cydnabod yr angen i ddatblygu **model eiddilwch** ar draws y meysydd gofal cymdeithasol, gofal sylfaenol a gofal eilaidd er mwyn **diwallu anghenion y boblogaeth sy'n heneiddio**;
- Rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo gwaith sy'n canolbwyntio ar **gryfder, cydbwysedd a lles meddyliol** cleifion yn yr ysbyty gyda golwg ar leihau achosion o **gwympto**.

Gwobrau Cydnabyddiaeth

Ydych chi'n teimlo bod aelod o staff wedi gwneud cyfraniad cadarnhaol at eich gofal? Bob blwyddyn rydym yn gofyn i gleifion a/neu eu teuluoedd enwebu aelod o staff am wobr cydnabyddiaeth.

Ysgrifennwch at y *Tîm Cyfathrebu* yn:
Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg
Tŷ Ynysmeurig
Parc Hen Lofa'r Navigation
Abercynon
Rhondda Cynon Taf
CF45 4SN

Adborth ar y Datganiad Ansawdd Blynyddol

Rydym yn datblygu'r datganiad hwn yn y gobaith y gallwn rannu gwybodaeth â chi am yr hyn yr ydym wedi bod yn ei wneud i wella ein gwasanaethau a'ch profiadau chi o'r gwasanaethau hynny. Rydym yn dymuno'n fawr glywed unrhyw adborth sydd gennych ar y datganiad ac unrhyw awgrymiadau sydd gennych am sut y gellid ei wella. Gallwch glicio ar y ddolen isod i gwblhau arolwg byr:

Dolen i'r arolwg:
<https://www.surveymonkey.co.uk/r/QKFS953>

Fel arall, cysylltwch â Phencadlys y Bwrdd Iechyd Prifysgol i gael copi caled o'r arolwg.

Os hoffech ragor o wybodaeth am y datganiad hwn neu os hoffech ddweud rhywbeth amdano, cysylltwch â:

Louise Mann, Cyfarwyddwr Cynorthwyol Ansawdd a Diogelwch, Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg, Tŷ Ynysmeurig, Parc Hen Lofa'r Navigation, Abercynon, CF45 4SN Louise.Mann@wales.nhs.uk

Dilynwch y dolenni i gael gwybod mwy am waith Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

Gwefan Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg:

Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Tudalen hafan

Ar gyfer papurau ac adroddiadau'r pwyllgor:

Cyfarfodydd y Bwrdd – Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg

Y Cyfryngau Cymdeithasol:

Rydym wrth ein boddau yn clywed gan ein cleifion, a'r cyfryngau cymdeithasol yw'r platfform perffaith i wneud yn siŵr fod pawb yn clywed am y gwasanaeth gwyb gawsoch chi. Ewch i'n tudalen [Facebook](#) a/neu [Twitter](#) i adael eich sylwadau.



[Bwrdd Iechyd Prifysgol Cwm Taf Morgannwg – Hafan | Facebook](#)



<https://twitter.com/cwmtafmorgannwg>

@CwmTafMorgannwg
@BIPCTMCymraeg